Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2010-2011

LBRO

Ffyniant a Diogelwch

LBRO
Ffyniant a Diogelwch

Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2010-2011

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Senedd yn unol â Pharagraff 12(5) o Atodlen 1 y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008 a chyflwynwyd y Cyfrifon i'r Senedd yn unol â Phâragraff 13(6) o Atodlen 1 y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008.

Wedi'i orchymyn gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar Orffennaf 14 2011

HC 1334 Llundain: Y Llyfrfa Pris £15.50

© Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol Hawlfraint 2011

Gellir atgynhyrchutestun y ddogfen hon (ag eithrio, ble mae'n bresennol, yr Arfau Brenhinol a'r holl logos adran ac asiantaeth) heb dalu mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd ag y'i atgynhyrchir yn gywir heb fod mewn cyd-destun camarweiniol.

Mae rhaid cydnabod y deunydd fel deunydd sy'n hawlfraint i'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol ac mae rhaid pennu teitl y ddogfen. Ble mae deunydd trydydd parti wedi'i gydnabod, mae rhaid cael caniatâd daliwr yr hawlfraint.

Dylid e-bostio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn i: enquiries@lbro.org.uk neu eu postio i LBRO, The Axis, 10 Holliday Street, Birmingham B1 1TG.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar: www.official-documents.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan ar: www.lbro.org.uk/publications-home

ISBN: 9780102974331

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID: 2440460 07/11

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 75% cynnwys ffibr fel lleiafswm

Cynnwys

Rhagair 7
Cyflwyniad 8
Perfformiad 11
Sylwadau'r rheolwyr 22
Adroddiad Tâl 30
Datganiadau ariannol am y cyfnod Ebrill 1 2010 i Fawrth 31 2011 34
Datganiad ar gyfrifoldebau LBRO a'r Prif Weithredwr 35
Datganiad ar Reolaeth Fewnol 36
Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd 40
Datganiad ar wariant clir cynhwysfawr 42
Datganiad ar y sefyllfa ariannol 43
Datganiad ar lifau arian 44
Datganiad ar newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr 44
Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y cyfnod Ebrill 1 2010 i Fawrth 31 2011 45
Datganiad ar bolisïau cyfrifyddu 45
Nodiadau i'r datganiad ar wariant clir cynhwysfawr 48
Nodiadau i'r datganiad ar y sefyllfa ariannol 52

Goleubwyntiau

Ein tri phrif grŵp partneriaeth 10
Adnoddau ar gyfer Rheolyddion 12
Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol i Gymru 13
Canlyniadau Rheoleiddiol Blaenoriaethol i Loegr 14
Adborth Awdurdod Sylfaenol 16
Estyn Awdurdod Sylfaenol: Pedair agwedd beilot 18
Cymhwysedd proffesiynol 20
Cyngor i'r Llywodraeth 21

Mae llawer o'r delweddau yn y cyhoeddiad hwn drwy gwrteisi www.shutterstock.com

Ffigyrau

1	Strategaeth LBRO yn 2010-11	12
2	Cyd-gynhyrchu	24
3	Cronfeydd adnoddau LBRO	27
4	Cyfanswm gwariant LBRO yn 2010-11	30

Tablau

1	Adroddiad tâl – cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2011	31
2	Hawliau pensiwn – cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2011	32
3	Crynodeb o archwiliadau mewnol	39
4	Datganiad ar wariant clir cynhwysfawr	42
5	Datganiad ar y sefyllfa ariannol	43
6	Datganiad ar lifau arian	44
7	Datganiad ar newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr	44
8	Cyfrifiad dibrisio ac amorteiddio	47
9	Costau sy'n perthyn i staff	49
10	Niferoedd ar gyfartaledd o bobl a gyflgir llawn-amser (cyfwerth)	49
11	Gwariant arall	49
12	Gwariant cyflawni rhaglen wrth y segment (gwrthrychol)	50
13	Cymorth grant	51
14	Incwm amrywiol	51
15	Eiddo, peiriannau ac offer	52
16	Asedau ansylweddol	53
17	Eitemau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill	54
18	Gweddillion mewnlywodraethol	54
19	Arian a phethau cyfwerth	55
20	Eitemau masnach taladwy a dyledion cyfredol eraill	55
21	Gweddillion mewnlywodraethol	55
22	Darpariaethau	56
23	Lesau gweithredu	56
24	Lesau cyllid	57

Rhestr o Fyrfoddau

BIS	Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
BRE	Gweithrediaeth Gwell Rheoleiddio
CETV	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod
CIEH	Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
CPS	Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
FReM	Llawlyfr yr Adroddiad Ariannol
FSA	Asiantaeth Safonau Bwyd
HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
LEPs	Partneriaethau Menter Leol
LGR	Rheoleiddio Llywodraeth Leol
NAO	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
NDPB	Corff cyhoeddus anlywodraethol
PA	Awdurdod Sylfaenol
PCSPS	Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
SMEs	Mentrau bach a chanolig
TSI	Sefydliad Safonau Masnach

Rhagair

Mae rheoleiddio da'n cefnogi ffyniant economaidd a diogelwch defnyddwyr. Mae'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) yn canolbwyntio ar wneud rheoleiddio busnes gan awdurdodau lleol yn fwy cynhyrchiol ac yn fwy effeithiol. Mae hyn o les i fusnes a mae'n gwella'r amgylchedd i greu ac i wneud busnes; mae o les i awdurdodau lleol drwy wneud eu gwaith rheoleiddio'n fwy effeithiol ac yn fwy targededig; ac mae o les i ddefnyddwyr sy'n cael diogelwch gwell fel canlyniad. Mae ein cylch gwaith yn cynnwys iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, trwyddedu a safonau masnach – rhyngddynt maent yn trafod meysydd mawr ac eang o reoleiddio busnes yn lleol.

Ar draws 2010-11, ein hail flwyddyn llawn o weithredu fel corff cyhoeddus anlywodraethol, rydym wedi cyflawni canlyniadau arwyddocaol a sylweddol. Mae ein cynllun Awdurdod Sylfaenol, ble mae busnesau'n ffurfio cytundebau statudol gyda chynghorau er mwyn ennill ffynhonnell ddibynadwy o gyngor sicr, wedi ymsefydlu'n gadarn ac yn gyflym mae'n dod yn arferol, yn arbennig ar y Stryd Fawr. Cydnabyddwyd y llwyddiant hwn gan y Llywodraeth, ac mae'n ymddangos y caiff Awdurdod Sylfaenol ei estyn gan eneradu buddion sydd hyd yn oed yn fwy. Roedd ein gwaith ehangach i ymgysylltu â busnes yn faes allweddol arall. Torrodd dir newydd wrth ddwyn persbectif busnes i bwyso ar ddiwygio rheoleiddiol, er enghraifft ar reoleiddio a gorfodi cynhyrchion sy'n gyfyngedig o ran oedran sydd wedi generadu cynigion diwygio penodol yn y maes hwnnw.

Roedd y flwyddyn yn drobwynt mewn ffordd sylfaenol iawn ar ôl i LBRO gael ei gynnwys yn adolygiad y Llywodraeth ar bob corff hyd braich. Casglodd yr adolygiad bod gwerth gan swyddogaethau LBRO allweddol a dylid eu cadw, felly'n cymeradwyo'r llwyddiannau hyd yn hyn. Hefyd casglodd y dylid symud y gwaith ymlaen gan gorff symlach fel uned annibynnol yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, ac nid oedd angen iddi fod yn NDPB. Dylai LBRO 'Newydd' gael dwy swyddogaeth graidd. Y rhain yw gweithredu ac estyn Awdurdod Sylfaenol, ar y cyd â chefnogi tŵf economaidd lleol drwy ymgysylltu â busnes, a symleiddio cyflawni rheoleiddiol.

Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Seneddol, trefnir creu'r uned newydd ar gyfer 2011-12. Rydym yn disgwyl iddi adlewyrchu cryfderau LBRO – credadwy, hyblyg a chost-effeithiol, ac yn cefnogi egwyddorion rheoleiddio da. Caiff ei lleoli yn Birmingham hefyd am y dyfodol rhagweladwy, yn helpu i gadw arbenigedd ac ymrwymiad y grŵp staff. Materion eraill a amlygwyd oedd y dystiolaeth gadarn am ein heffaith a'r gwerth a roddir ar ein gweithgareddau gan fusnesau a'u cynrychiolwyr. Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth gryf a dderbyniasom oddi wrth ein rhanddeiliaid. Rydym yn diolch iddynt a phawb arall a'n cynorthwyodd yn ystod 2010-11.

Clive Grace, Cadeirydd

Graham Russell, Prif Weithredwr

27 Mehefin 2011

Cyflwyniad

Pwy sy'n ein gwarchod yn y gwaith ac yn y artref, yn cynnal ansawdd ein hawyr a'n bwyd, ac yn sicrhau ein bod yn cael ein trin yn deg wrth brynu nwyddau? Yn y DU, ymgymerir â'r tasgau hanfodol hyn gan wasanaethau rheoleiddiol 433 awdurdod lleol. Maent yn gweithredu mewn amgylchedd gymhleth, yn aml yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaethau gydag asiantaethau eraill er mwyn mynd i'r afael â materion eang ac amrywiol, tra'n dal i ganolbwyntio ar drosglwyddo canlyniadau gwell i gyflawni cymunedau iach, diogel, gwyrdd a llwyddiannus.

Mae'r gweithgareddau a wneir gan wasanaethau rheoleiddiol yn cyfrannu at ffyniant economaidd a diogelwch defnyddwyr, tra'n cael eu harwain gan anghenion a blaenoriaethau lleol. Mewn cysylltiad â'n cenhadaeth i wella rheoleiddio busnesau ar lefel lleol, mae ein cylch gwaith yn estyn i bedwar gwasanaeth: iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, trwyddedu a safonau masnach. Maent i gyd yn darparu cyngor, cymorth a gorfodaeth i gwmnïau, yn gweithredu eu harbenigedd i faterion allweddol.

Mae ein cynhyrchion yn anelu at gefnogi'r gwaith hwn ac mae'n cynnwys teclynnau, enghreifftiau ymarfer, trosolygon prosiect, gwybodaeth, casgliadau ymchwil ac adroddiadau ymgynghori.

Er bod ein cylch gwaith yn cwmpasu'r holl DU mae ei faint yn amrywio, felly rydym yn cydweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig fel bo angen. Rydym yn dîm bach ag un swyddfa yn Birmingham. Ble lleolir staff mewn man arall rydym yn rhannu swyddfa, er enghraifft gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) yn Llundain a Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

Rydym yn derbyn y rhan fwyaf o'n hincwm fel 'cymorth grant' oddi wrth BIS. Yn 2009-10 a 2010-11, ein dyraniadau oedd £4.1 miliwn a £3.71 miliwn yn eu tro, a chyfanswm ein gwariant gan gynnwys cyfalaf oedd £4.5 miliwn a £4.064 miliwn (â'r gwahaniaeth yn cael ei ariannu gan ffynonellau incwm eraill).

Fe'n rheolir gan Fwrdd annibynnol. Mae gan ei chwech aelod (wedi'i lleihau o naw ym Medi 2010) brofiad eang o feysydd fel adfocatiaeth, busnes a llywodraethu.

O ystyried y tirwedd rydym yn gweithredu ynddo, mae cyflawni cydweithredol yn ganolog i'n hagwedd, a ffurfir a lansir ein mentrau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol. Yn ystod 2010-11, roedd 288 o awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru'n ymgysylltu â'n prosiectau: 77 y cant o'r cyfanswm. Rydym yn gweithio gyda'r Cyghrair o Safon Fyd-eang o gyrff proffesiynol a chynrychiadol – gan gynnwys rheolyddion cenedlaethol – i wella'r system fel cyfan. Mae'n ennill mewnbwn hanfodol oddi wrth ein panel cyfeirio awdurdod lleol, a rydym yn derbyn cyngor ac adborth oddi wrth ein panel cyfeirio busnes, sy'n cynrychioli rhwydwaith ehangach o oddeutu 750,000 o fusnesau. Rhestrir aelodau'r tri grŵp ar dudalen 10. Hefyd rydym yn cynnal ymgyngoriadau ffurfiol ac anffurfiol ar sylfaen reolaidd.

Mae ein polisi cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn perthyn i'n gweithdrefnau gwaith a recriwtio, ac mae gennym ystod o bolisïau hyblyg sy'n gyfleus i'r teulu ar gyfer ein staff, fel darparu talebau gofal plant. Mae staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp i gefnogi elusennau penodol, ar sylfaen wirfoddol ac heb gost i LBRO.

Goruchwylir ein gweithgareddau gan y Gweithrediaeth Gwell Rheoleiddio (BRE|). Hefyd rydym yn destun craffu seneddol, yn arbennig gan y Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio. Atebir cwestiynau Seneddol a Rhyddid Gwybodaeth yn brydlon gan ddatgelu'n llawn. Mae cyflawni argymhellion llythyrau rheolwyr a baratöir gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol (NAO) ac unrhyw gyrff allanol perthnasol eraill yn gyfrifoldeb allweddol i'n Pwyllgor Archwilio.

Goleubwynt: Ein tri phrif grŵp partneriaeth

Cyngrhair o safon fyd-eang

Iechyd Anifeiliad
Comisiwn Archwilio
Gweithrediaeth Gwell Rheoleiddio
Sefydliad Siartredig Iechy yr Amgylchedd
Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Cymunedau a Llywodraeth Leol
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Asiantaeth yr Amgylchedd
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Y Comisiwn Hapchwarae
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Sefydliad Trwyddedu
Swyddfa Eiddo Deallusol
Rheoleiddio Llywodraeth Leol
Y Swyddfa Fesur Wladol
Y Swyddfa Masnachu Teg
Sefydliad Safonau Masnach
Llywodraeth Cymru

Panel cyfeirio awdurdod lleol

Barnsley
Brighton and Hove
Cannock Chase
Central Bedfordshire
Chelmsford
Dinas Llundain
Cernyw
Derbyshire
DinasDundee
Durham
East Dorset
Essex
Market Harborough
Sir Fynwy
Newham
Norfolk
North Lanarkshire
North Norfolk
North West Leicestershire
Suffolk
Torfaen
Warrington
Westminster
Wigan
Swydd Gaerwrangon

Panel cyfeirio busnes

Alliance Boots (CBI member)
Asda (BRC member)
Cymdeithas Siopau Cyfleustra
B&Q (Grŵp Aelodau Busnes TSI)
BHF-BSSA Group (caledwed / manwerthwyr di-fwyd annibynnol)
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
Siambrau Masnach Prydain
Ffederasiwn Bwydydd Wedi'u Rhewi Prydain
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
Cymdeithas Lletygarwch Prydain
Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain
Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC)
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
Co-op
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
Cymdeithas Gwerthu Uniongyrchol
Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianneg
Cymdeithas Marchnadoedd Ffermwyr
Ffederasiwn Busnesau Bach
Ffederasiwn Bwyd a Diod
Fforwm Busnesau Preifat
Cymdeithas Huro Ewrop
Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Ladbrokes (Cymdeithas Bwcis Prydain)
Undeb Genedlaethol y Ffermwyr
Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd
Cymdeithas Gofal Anifeiliaid Anwes
Ffederasiwn y Fasnach Gyflenwi
Cymdeithas Manwerthwyr Radio,Trydanol a Theledu
Cyngrhair Siopau Gwledig
Sainsbury's (aelod BRC)
Awdurdod Diwydiant Pysgod y Môr
Cymdeithas Aelodau Awdurdod Lleol Allanol
Tesco (BRC member)
WH Smith (aelod BRC)
Wilkinson Hardware Stores (aelod BRC)
Cymdeithas Y Fasnach Gwinoedd a Gwirodydd

Perfformiad

Ar y tudalennau dilynol,asesir ein gweithgareddau ar gyfer ein tri amcan strategol yn ystod 2010-11, a ddangosir yng nghyd-destun ein strategaeth gyfan yn Ffigwr 1.

Ein dwy flaenoriaeth yn 2011-12 yw Awdurdod Sylfaenol ac ymgysylltu â busnes a symleiddio cyflawni rheoleiddiol. Mae'r rhain yn adlewyrchu amcanion Gweinidogol a'r symudiad i ffwrdd o wella gwasanaeth a yrrir o'r canol.



Ffigwr 1: strategaeth LBRO yn 2010-11

Amcan 1

Cefnogi gwella gwasanaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol

Cesglir ein mentrau o dan prif themâu Fframwaith Rhagoriaeth cyfun LBRO ac LGR, a lansiwyd yn Chwefror 2010. Sefydlodd hwn gonsensws ynghylch agweddau craidd gwasanaethau rheoleiddiol effeithiol, a'r defnydd o hunan-asesiad ac her gan gymheiriaid i yrru arloesedd. Manwl, trwyadl ac ymarferol, mae'n darparu sylfaen gadarn i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i fusnesau ac i ddinasyddion. Hefyd mae'n ffurfio strwythur Adnoddau ar gyfer Rheolyddion, adran ein gwefan a ddaeth yn fyw yn Chwefror 2011.

Goleubwynt: Adnoddau ar gyfer Rheolyddion

Cynhyrchwyd y cyfleuster ar-lein hwn i Lywodraeth Cymru I gynorthwyo rheolyddion Cymru, gan dynnu ar ein gwaith drwy gydol y DU. Wrth gael ei lansio roedd ganddo 30 tudalen â 90 lawrlwythiad, yn darparu taclau , enghreifftiau ymarfer, trosolygon prosiect, gwybodaeth, casgliadau ymchwil ac adroddiadau ymgynghori. Cesglir y cynnwys mewn themâu cyffredinol, ond gellir ei weld ar sail yr adnoddau sydd ar gael neu ar sail themâu cyffredinol. Mae'r pwyslais yn gadarn ar roi cymorth ymarferol a chreu amodau am reoleiddio gwell ar draws y system fel cyfanwaith.

"Mae gwasanaethau rheoleiddiol Cymru'n gwarchod buddiannau cyhoeddus ac maent yn helpu i greu maes chwarae gwastad y gall dinasyddion, defnyddwyr a busnesau ffynnu ynddo. Mae eu gweithredoedd yn allweddol wrth gyflawni'r canlyniadau sydd angen i bobl yng Nghymru, gan gynnwys bwyd saffach, cymunedau diogel, gweithleoedd iachach a masnachu tecach. Yn ystod 2010-11, cryfhaodd LBRO y llwyfan ar gyfer cynnydd yn sylweddol, gan ddatblygu Adnoddau ar gyfer Rheolyddion – cyfleuster defnyddiol i awdurdodau lleol – a pharatoi'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol cyntaf I Gymru."

Richard Shearer, Creu'r Cysylltiadau: Polisi a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru

www.lbro.org.uk/resources

Cyflawni canlyniadau'n effeithiol ac yn gynaliadw

Mae canfod ffordd glir a chryno i ddangos canlyniadau gwaith yn sail i dargedu effeithiol o adnoddau cyfyng. Parheuasom i helpu gwasanaethau rheoleiddiol i egluro ac i fesur y buddion maent yn eu cyflawni i fusnesau a defnyddwyr lleol. I gynorthwyo'r asesiad o ganlyniadau ac effeithiau gweithredoedd, rydym wedi ychwanegu teclyn rhyngweithiol i'n gwefan. Mae hyn yn gadael i swyddogion cyngor greu llwybrau gweladwy o weithredu cyfredol neu weithredu a gynnigir yn gyflym ac yn hawdd, tra'n safoni eu hymddangosiad at ddibenion cyflwyno. Mae defnyddio'r cynnyrch hwn yn helpu gwasanaethau rheoleiddiol i gael trafodaethau mwy deallus am flaenoriaethau ac am ddyrannu adnoddau, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol am eu mentrau – yn gwella eu proffil mewn partneriaethau strategol lleol.

I hybu mabwysiadu ehangach o'r agwedd canlyniadau ac effeithiau, trefnasom ddigwyddiadau 'hyfforddi'r hyfforddwr', rhai'n cynnwys staff o reolyddion cenedlaethol, a chyhoeddasom ganllaw anffurfiol i hwyuso sesiynau gweithdy, yn seiliedig ar ein profiadau.

www.lbro.org.uk/resources/outcomes-and-impacts-pathway-tool.html

Canolbwyntio ar gwsmeriaid ac ymgysylltu â hwy

Gan fod gwasanaethau rheoleiddiol yn cyfrannu at ganlyniadau sy'n bwysig i bobl leol, maent mewn sefyllfa dda i feithrin cymunedau ac economïau lleol. Hefyd mae eu gwaith yn allweddol wrth gyflawni'r gwasanaethau cyhoeddus atebol a anelir at y dinesydd.

Mae dros hanner y rhyngweithiadau rhwng awdurdodau lleol a busnesau drwy swyddogion gwasanaethau rheoleiddiol. Gwneir gwerth y cyswllt wyneb yn wyneb hwn yn fwy pan yw deialog cynhyrchiol sy'n cyflawni buddion cyffyrddadwy i gwmnïau. Gall swyddogion ddefnyddio eu harbenigedd proffesiynol eang i ddarparu cyngor ymarferol a chymorth targededig, ac i ddatblygu perthnasau cyfredol sy'n galluogi busnesau i addasu i anghenion sy'n newid

Wedi'i lansio ym Mawrth 2009, mae Newid Lleoedd yn rhoi cipolwg gwerthfawr i swyddogion cyngor ynghylch y ffordd mae busnesau'n delio â rheoleiddio. Trefnir ymweliadau byr ond dwys â chwmnïau DU o bob maint, weithiau drwy gymdeithasau masnach neu gyrff cynrychiadol. Mae'r profiadau dysgu ymarferol hyn yn dod â phobl ynghyd o'r sectorau cyhoeddus a phreifat ag ymgysylltiad y rheolyddion cenedlaethol. Erbyn Mawrth 2011, roedd swyddogion o 32 y cant o awdurdodau lleol Lloegr a Chymru wedi gwella eu dealltwriaeth o amgylcheddau masnachol gan fynychu lleoliadau drwy ein menter.

Mae'r datganoli o bŵer yn cynyddu'r angen i wasanaethau rheoleiddiol fod yn atebol i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Cefnogir hyn gan werthuso canlyniadau gwaith i brofi eu heffeithiolrwydd, a thrwy rymuso dinasyddion drwy mentrau lleol fel cynlluniau masnachwyr a gymeradwyir a sgoriau hylendid bwyd.

Arweiniad, strategaethau a chydweithio

Mae gwasanaethau rheoleiddio'n bodoli i gwrdd ag anghenion eu hardaloedd, ond gall cydbwyso gweithgareddau lleol â risgau sy'n perthyn ar lefel genedlaethol gyflwyno heriau. Mewn ymateb i'r rhain sefydlodd Adroddiad Rogers yn 2007 y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol, i gynghorau eu defnyddio wrth ddyrannu adnoddau. Eu rheoli yw un o'n cyfrifoldebau statudol.

Yn dilyn proses ymgynghori ffurfiol a ymgymerwyd gan Lywodraeth Cymru, lansiasom y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol cyntaf i Gymru yng Ngorffennaf 2010. Maent yn adlewyrchu egwyddorion y cytundeb *Un Cymru.* I'w helpuil ymsefydlu, cychwynasom waith sy'n seiliedig ar brosiect ar leihau'r baich o gasglu data, gan ddefnyddio ein hagwedd canlyniadau ac effeithiau.

Goleubwynt: Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol I Gymru

1. Gwarchod unigolion rhag niwed ac hyrwyddo gwella iechyd
2. Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid
3. Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion ac i fusnesau
4. Gwella'r amgylchedd lleol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd ac hyrwyddo cynaliadwyedd

www.lbro.org.uk/resources/national-enforcement-priorities-in-wales.html

Mewn dogfen ymgynghori a gyhoeddasom yn Chwefror 2011, cynigiasom amnewid y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol presennol i Loegr â chanlyniadau rheoleiddiol blaenoriaethol ehangach. Mae'r rhain yn adlewyrchu problemau sy'n pryderu dinasyddion a busnesau, gan gynnwys ansawdd a diogelwch yr amgylchedd lleol; problemau ansawdd bywyd fel tai, sŵn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol; ac hylendid a diogelwch safleoedd manwerthu lleol. Maent yn egluro'r hyn sy'n bwysig i'r Llywodraeth ac yn sicrhau y gellir canolbwyntio gweithredu rheoleiddiol ar gyflawni canlyniadau.

Rhedodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos gan gau ym Mai 2011. Trafodwyd y cynigion ag awdurdodau lleol mewn cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol a derbyniwyd ymatebion ffurfiol oddi wrth 25 sefydliad, gan gynnwys cyrff cynrychiadol, adrannau'r Llywodraeth a rheolyddion cenedlaethol. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr adborth a bwriedir cyhoeddi ein hadroddiad terfynol ym Medi 2011, ynghyd â thaclau ymarferol i gefnogi defnydd y blaenoriaethau gan awdurdodau lleol.

Goleubwynt: Canlyniadau Rheoleiddiol Blaenoriaethol i Loegr

1. Gwarchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gan fynd i'r afael â bygythiadau ac effeithiau newid hinsawdd
2. Gwella ansawdd bywyd a lles gan sicrhau mannau cyhoeddus glân a diogel
3. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach gan atal afiechyd a niwed a chan hyrwyddo iechyd cyhoeddus
4. Sicrhau cadwyn fwyd ddiogel, iach a chynaliadwy er lles defnyddwyr a'r economi gwledig
5. Cefnogi menter a thŵf economaidd gan sicrhau amgylchedd masnachu teg, cyfrifol a chystadleuol

www.lbro.org.uk/resources/priority-regulatory-outcomes-in-england.html

Yn yr hinsawdd ariannol heriol cyfredol, mae canfod ffyrdd i gyflawni blaenoriaethau ag adnoddau gostyngedig o bwysigrwydd canolog. Trwy dynnu ar agweddau fel gweithredu meddwl systemau ac asesu galw cwsmeriaid, mae llawer o wasanaethau rheoleiddiol yn datblygu modelau cyflawni newydd, a all weithredu o fewn neu ar draws awdurdodau lleol. Cynhyrchasom nifer o astudiaethau achos i amlygu enghreifftiau o arfer da.

Hefyd rydym wedi parhau i gefnogi'r partneriaethau presennol ar gyfer safonau masnach – mewn rhanbarthau Lloegr ac ar draws Cymru – a'r grŵp llywio i'r naw cyngor unedol a grëwyd yn Ebrill 2009. I annog dysgu a rennir, trefnasom seminar yn Birmingham yn Hydref 2010, wedi'i fynychu gan dros 100 o bobl. Rhoddwyd cyflwyniadau ar ddatrysiadau i heriau ariannol a chyflawni gwasanaeth amrywiol gan gynrychiolwyr o saith awdurdod lleol a Gwasanaethau Rheoleiddiol Swydd Gaerwrangon. Roedd yr adborth a ddarparwyd yn addysgiadol iawn gan arwain at lawer o draod ymhlith y gynulleidfa.

Adnoddau, gweithredu a rheoli pobl

Mae'n bwysig i fusnesau dderbyn adborth ystyrlon oddi wrth reolyddion ynghylch eu perfformiad cydymffurfio ac ynghylch sut y gellir ei wella. Bydd system gyffredin yn helpu busnesauIl ddeall y meini prawf asesu, ac i ddeall y gall lleihau'r lefelau o risg olygu ymyriadau sy'n llai aml a sy'n llai o faich.

Cytunasom agwedd gyda'r Cyngrhair o Safon Fyd-eang i integreiddio'r modelau asesu risg amrywiol sy'n cael eu defnyddio ar draws rheoleiddio lleol. Bydd y system semlach a thryloyw hon yn darparu sylfaen ar gyfer gwell rannu o wybodaeth, ac felly'n gwella cadernid y dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r ymateb asesu a rheoleiddio. Bydd yr agwedd yn lleihau dyblygu gan helpu canolbwyntio adnoddau rheoleiddiol prin ble mae'r angen mwyaf.

Yng Nghymru, mae'r Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer sancsiynau sifil, i'w cyflawni yn 2011. Gofynnodd Llywodraeth Cymru inni adolygu cynnydd y 22 awdurdod lleol yng Nghymru tuag at yr amgylchiadau a fyddai'n galluogi gweithredu'r pwerau newydd hyn. Aethpwyd i'r afael â nifer o broblemau a dangoswyd ffordd gadarnhaol ymlaen.

Targedau allweddol am 2009-12	Ein cynnydd erbyn Mawrth 2011
80% o fusnesau'n gweld gwasanaethau rheoleiddio fel rhai teg a buddiol	Ar sylfaen asesiad BRE o ddata Dangosydd Cenedlaethol yn Hydref 2010, roedd 77% o fusnesau yn Lloegr yn gweld gwasanaethau rheoleiddio fel rhai teg a buddiol
85% o fusnesau'n datgan bod gwasanaethau rheoleidio'n deall eu busnesau	Ar sylfaen arolwg canfyddiadau'r LBRO yng Ngorffennaf 2010, roedd 75% o fusnesau'n teimlo bod gwasanaethau rheoleiddio'n eu deall
Mae 50% o wasanaethau rheoleiddio wedi mesur effaith eu gweithgareddau ar gymunedau	Defnyddiodd 101 o awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru y pecyn cymorth canlyniadau ac effeithiau yn 2010-11
Mae 50% o wasanaethau rheoleiddio wedi gosod staff yn Newid Lleoedd	Gosododd 32% o awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru swyddog ar y cynllun yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf

Adnoddau pellach ar gyfer cyfeirio ar wefan LBRO

Canlyniadau Rheoleiddiol Blaenoriaethol: Agwedd Newydd tuag at Adnewyddu Gorfodi Cenedlaethol Blaenoriaethau i Wasanaethau Rheoleiddiol Awdurdod Lleol. LBRO, Chwefror 2011
Agwedd Gyffredinol tuag at Asesu Risg – Cynigion Terfynol, LBRO, Chwefror 2011
Hwyluso Gweithdai gan Ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Canlyniadau ac Effeithiau, LBRO, Chwefror 2011
Ymchwil Omnibws Cymru, Ymchwil Beaufort, Medi 2010
Arolwg Canfyddiadau Busnes, FDS International, Gorffennaf 2010
Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol I Gymru, Llywodraeth Cymru / LBRO, Gorffennaf 2010

Amcan 2

Cyflawni cysondeb

Awdurdod Sylfaenol

Mae Awdurdod Sylfaenol yn galluogi busnesau i ffurfio partneriaeth statudol gydag awdurdod lleol sengl. Mae'r awdurdod sylfaenol yn darparu cyngor sicr i'r busnes ac yn galluogi cynghorau eraill i'w reoleiddio mewn ffordd gymesur sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn gostwng costau ac yn symbylu ffyniant yn ogystal â chyflawni system fwy effeithiol o reoleiddio lleol.

Mae Awdurdod Sylfaenol yn ffurfio un o'r amodau sydd angen ar gyfer twf cynaliadwy , gan ddarparu mynediad parod i gymorth rheoleiddiol i fusnesau a chan galluogi iddynt arddangos eu cydymffurfion'n effeithiol. Mae wedi creu perthynas newydd rhwng busnesau a rheolyddion. Nawr gall busnesau ddibynnu ar y cyngor ynghylch iechyd yr amgylchedd, trwyddedu a safonau masnach a dderbynnir oddi wrth awdurdodau lleol, gan wybod ei fod yn farn arbenigol, sy'n perthyn ar draws y DU, a'i fod yn sylfaen ddiogel am benderfyniadau buddsoddi a gweithredu.

Gosodir egwyddorion Awdurdod Sylfaenol yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008. Mae ei weithredu'n gyfrifoldeb statudol LBRO. Rydym yn cofrestru pertneriaethau, yn cyhoeddi cyfarwyddyd ac yn datrys anghydfodau.

Goleubwynt:Adborth Awdurdod Sylfaenol

"Trefnir ein partneriaeth awdurdod sylfaenol arloesol gyda Chyngor Sir Hertfordshire a Chyngor Bwrdeistref Dacorum. Mae'n siop-un-stop sy'n cynnwys yr ystod ehangach o reoleiddio awdurdod lleol o ddiogelwch bwyd i ddiogelu'r amgylchedd. Mae'n sicrhau bod ein cwsmeriaid yn elwa o agwedd tuag at reoleiddio sy'n gyson ac sy'n seiliedig ar risg.

Carole Payne, Cyfarwyddwraig Gweithrediadau a Safonau ar gyfer y Gyfraith Fasnachu a Thechnegol, Tesco

Mae Awdurdod Sylfaenol wedi casglu momentwm sylweddol yn 2010-11, a nodwyd gan greu llawer o bartneriaethau newydd a chan datblygiad y rheini a ffurfiwyd yn y flwyddyn flaenorol. Arweiniodd hyn at gynnydd amlwg yn y buddion a welwyd gan gyfranogwyr busnes a'r system reoleiddiol leol. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn gynyddol o weithredol wrth osod buddion Awdurdod Sylfaenol i fusnesau sy'n gweithredu yn eu hardaloedd drwy seminarau a chyfarfodydd lleol. Nawr mae 50 yn darparu gwasanaethau Awdurdod Sylfaenol. Eiriolasom mewn achosion ble roedd gweithredu gorfodi'n cael ei ystyried, fel arfer gan annog deialog cynhyrchiol. Ar ben hynny, datblygasom ymhellach ymarferoldeb y system TG ddiogel a ddefnyddir gan gynghorau.

Erbyn diwedd Mawrth 2011, cwmpaswyd 211 o fusnesau, 36,000 o safleoedd ac oddeutu 920,000 o gyflogeion gan 696 o bartneriaethau.

Yn ei *Chynllun am Dwf* ym Mawrth 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i ehangu'r model Awdurdod Sylfaenol er mwyn gweithredu safonau gorfodi cyson ar draws ystod ehangach o reoleiddiadau a busnesau.

Nod y cynigion yw:

- cynyddu'r nifer a'r mathau o reoleiddiadu sy'n syrthio o fewn y model Awdurdod Sylfaenol, er enghraifft gwerthu alcohol a chyllyll sy'n gyfyngedig o ran oedran; a
- galluogi ffederasiynau, grwpiau cwmni, busnesau etholfraint a chymdeithasau masnach i gael mynediad i fath o Awdurdod Sylfaenol.

Er mwyn archwilio'rpetensialil estyn Awdurdod Sylfaenol cychwynasom bedair prosiect, a grynhoir ar y tudalen canlynol.

Meysydd gwaith eraill

Fel rhan o'n prosiect bygythion cenedlaethol, cyngorasom y dylid dyrannu ariannu ar gyfer cadw golwg ar nwyddau defnyddwyr sy'n dod i mewn i'r DU drwy ddau borthladd, wedi'i hysbysu gan asesiad strategol o'r risgau. Rhwysrodd hyn rai gynhyrchion anniogel, nad oeddynt yn cydymffurfio, rhag cyrraedd y farchnad, gan gynyddu swm y gorfodiyn y pyrth mynediad a'r lefel o weithredoedd canlynol cydgysylltiedig a gymerwyd gan gynghorau ill dau. Mewn adroddiad i BIS annogasom y dylid cadw'r cymorth ariannol am y fenter hon.

Targedau allweddol ar gyfer 2009-12	Ein cynnydd erbyn Mawrth 2011
Mae 100% o fusnesau sy'n ceisio perthynas Awdurdod Sylfaenol yn llwyddiannus o fewn chwe mis	Roedd 100% yn llwyddiannus
Mae 650 o bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol yn bodoli, yn cwmpasu o leiaf 250 o fusnesau	Gwnaed cynnydd ardderchog tuag at darged Mawrth 2012: ffurfiwyd 696 o bartneriaethau yn cwmpasu 211 o fusnesau
Ar gyfer busnesau ac awdurdodau lleol o fewn partneriaethau Awdurdod Sylfaenol: • 80% o fusnesau ac awdurdodau lleol yn datgan boddhad • 85% o fusnesau'n datgan bod y cyngor eu bod yn derbyn yn gyson iawn neu'n weddol gyson • 95% o fusnesau'n datgan eu bod yn profi agwedd fwy cyson tuag at reoleiddio	Ar sylfaen gwerthuso rhagarweiniol â main t sampl bach, gwnaed cychwyn cryf tuag at darged Mawrth 2012: • Roedd 100% o fusnesau mewn partneriaeth am 12 mis neu fwy'n fodlon • Cafodd 64% o fusnesau mewn partneriaeth am ddau fis neu fwy fod y cyngor a dderbyniwyd yn gyson iawn neu'n weddol gyson

Adnoddau pellach ar gyfer cyfeirio ar wefan LBRO

Cyngor Awdurdod Sylfaenol: Darparu Sicrwydd, LBRO, Mehefin 2010
Cynlluniau archwilio Awdurdod Sylfaenol: Teclyn am Newid, LBRO, Mehefin 2010
Awdurdod Sylfaenol: Partneriaethau Adnoddau, LBRO, Mehefin 2010

Goleubwynt: Estyn Awdurdod Sylfaenol: Pedair agwedd beilot	
1	**Cydnabyddiaeth a ennillir**
Nod	I asesu'r taclau sydd angen i fusnesau i gael cydnabyddiath a ennillir ac i archwilio'r potensial i'w gyfawni trwy gynlluniau archwilio a ffurfir gydag awdurdodau sylfaenol.
Cyfranogwyr	Asda, B&Q, Co-op, Home Retail Group, Iceland, Marks and Spencer, Moto, Sainsbury's, Tesco, TK Maxx, JD Wetherspoons, BRE, HSE, FSA
Cynnydd at Fawrth 2011	Yn dilyn dau weithdy a aeth i'r afael â phroblemau ymarferol amrywiol, mae cynlluniau archwilio drafft a baratöwyd â chymorth oddi wrth y rheolyddion cenedlaethol yn cael eu cymeradwyo gan LBRO.
2	**Cwmpas ehangach: busnesau bach**
Nod	I brofi'r potensial i egwyddorion Awdurdod Sylfaenol gael eu gweithredu i anghenion busnesau lleol unigol, gan gynnwys sicrwydd, cyflawni cydymffurfio trwy gyngor a phartneriaeth, cydnabod cydymffurfio, a rheolyddion yn cydweithio.
Cyfranogwyr	Wyth awdurdod lleol
Cynnydd at Fawrth 2011	Mae mentrau sy'n edrych ar ystod o broblemau fel agweddau ar y cyd tuag at gydymffurfio a mechanweithiau ar gyfer cydnabyddiaeth yn cael eu profi mewn wyth ardal awdurdod lleol.
3	**Cwmpas ehangach: modelau cydymffurfio**
Nod	I archwilio a all cyngor sicr elwa busnesau sy'n gweithredu agweddau rhyng-berthnasol tuag at gydymffurfio, a nodweddir gan etholfreintiau a safleoedd a denantir.
Cyfranogwyr	Enterprise Inns, Kentucky Fried Chicken, Enterprise Inns
Cynnydd at Fawrth 2011	Paratöwyd astudiaethau achos i'w defnyddio yn y Papur Gwyn Rheoleiddiol.
4	**Cwmpas ehangach: modelau sector**
Nod	I wirio dichonoldeb darparu cyngor sicr drwy bartneriaethau AS gyda chymdeithasau masnach.
Cyfranogwyr	Cymdeithas Siopau Cyfleustra, Grŵp BHF-BSSA , Cymdeithas Tegan a Hobi Prydain, FARMA, Cymdeithas Gofal Anifeiliaid Anwes
Cynnydd at Fawrth 2011	Paratöwyd astudiaethau achos i'w defnyddio yn y Papur Gwyn Rheoleiddiol.

Amcan 3

Gwella'r system reoleiddio leol

Mae tirwedd reoleiddiol leol y DU yn cynnwys 433 cyngor, 58 awdurdod tân ac achub, 152 awdurdod iechyd porthladd, 11 rheolydd cenedlaethol a 12 adran Llywodraeth ganolog, eu cyrff cyfwerth yn y cenheloedd datganoledig a chyrff cynrychiadol amrywiol eraill.

Rydym yn gweithio gyda Chyngrair Safon Fyd-eang er mwyn estyn y Fframwaith Rhagoriaeth drwy ddatblygu agweddau cyffredin tuag at agweddau penodol o wasanaethau rheoleiddiol. Un nod allweddol yw i symleiddio'r modelau rheoleiddiol amrywiol a'r technegau gorfodi sy'n rhwystro gweithredu rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg ar hyn o bryd.

Gweithiasom mewn partneriaeth gyda CIEH, HSE a TSI i greu safonau tryloyw, proffesiynol o gymhwysedd. Bydd y rhain yn sefydlu egwyddorion rheoleiddio da gan ganolbwyntio ar helpu busnesau i gydymffurfio.

Y nod yw i sicrhau y cydnabyddir anghenion gwasanaethau rheoleiddiol a swyddogion awdurdodau lleol gan fynd i'r afael â hwy:

- drwy hunan-asesiad;;
- drwy daclau syml, hawdd eu defnyddio sy'n seiliedig ar y we;
- â datrysiadau arloesol a chost-effeithiol; ac
- fel rhan bwysig o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Darperir mwy o wybodaeth ar y tudalen canlynol.

Gofynnwyd am waith pellach ar ein cronfa dystiolaeth bresennol ar gasgliadau data – a ganfyddodd y ceisiwyd 139 cofnod gwahanol yn flynyddol gan wasanaethau rheoleiddiol ar draws Lloegr a Chymru – gan Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd inni gynhyrchu dadansoddiad manylach, wedi'i gysylltu â'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol newydd i Gymru â'r nodau o ostwng y baich a symleiddio asesu perfformiad. Paratöwyd adroddiad â mewnbwn oddi wrth reolyddion lleol a chenedlaethol i'w ystyried gan Fforwm Rheolyddion Cymru ym Mehefin 2011.

Goleubwynt: Cymhwysedd proffesiynol

Bydd amnewid yr agweddau lluosog ac anghyson cyfredol tuag at gymhwysedd â set sengl o safonau proffesiynol cyffredin yn symleiddio'r system reoleiddiol. Hefyd bydd yn cynorthwyo gweithredu croes-reoleiddiol, gan helpu rheolyddion cenedlaethol i weithio'n agosach â'i gilydd, wedi'u cefnogi gan eu cyrff proffesiynol.

Mae'r agwedd gyfan wedi'i cheisio a'i phrofi. Defnyddir eisoes gan timau iechyd a diogelwch mewn llawer o gynghorau, yr HSE, a Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd. Mae'n annog swyddogion i dynnu ar eu barn proffesiynol a'u disgresiwn wrth ddatrys amgylchiadau lleol, ac mae ganddi gefnogaeth gref oddi wrth y Llywodraeth.

Ei nodweddion allweddol yw:

- fframwaith cymhwysedd sgiliau rheoleiddiol generig craidd;
- fframweithiau gwybodaeth dechnegol, yn benodol i feysydd rheoleiddio a sectorau;
- modd i ymgymryd â hunan-asesiad: y teclyn Dadansoddiad Anghenion Datblygu Rheolyddion (RADA);
- modd i helpu cwrdd ag anghenion datblygu a adnabyddir; Cyfarwyddyd ar gyfer Rheolyddion – teclyn Pwynt Gwybodaeth (GRIP); a
- phroses datblygu ar gyfer rheolyddion a rheolwyr.

Yn sgil ymgynghori eang gyda chyrff proffesiynol a chynrychiadol, gan gynnwys adborth oddi wrth ein panel cyfeirio busnes, creuasom wyth fframwaith ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiol, a'u peilota gyda 25 awdurdod lleol ac Asiantaeth Ardystio Cerbydau yn Chwefror / Mawrth 2011. Y bwriad yw y byddant ar gael i gynghorau, ynghyd â'r taclau cynorthwyol, ym Medi / Hydref 2011.

"Mae ein sefydliadau ill dau'n ymrwymiedig i weithio gyda LBRO i ddatblygu safonau proffesiynol o gymhwysedd mewn gwasanaethau rheoleiddiol. Y nod sylfaenol yw i gyflawni ffordd gost-effeithiol ac ymarferol i gynnal sgiliau a gwybodaeth hanfodol sy'n gwella enw da swyddogion ac sy'n cefnogi busnes cyfreithlon."

Tony Lewis, Pennaeth Addysg, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Phil Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau (Safonau Proffesiynol), Sefydliad Safonau Masnach

Mae ymgysylltu â busnes yn faes allweddol yn ein gweithgareddau ac mae wedi cynhyrchu nifer arwyddocaol o ganlyniadau, gan gynnwys cyhoeddi'r adroddiad a amlygir ar y tudalen canlynol, ac arfarniad ar reoleiddio a gorfodi cynhyrchion a gyfyngir o ran oedran.

Yn sgil cyhoeddi'r Partneriaethau Menter Leol (LEPau) yn y Papur Gwyn Twf Lleol yn Hydref 2010, gofynnodd y Gweinidog Gwladol dros Fusnes a Menter Mark Prisk inni gefnogi partneriaethau newydd, er mwyn canfod y ffordd orau i ddelio â biwrocratiaeth ar lefel leol. Mae'r fenter hon yn cael ei datblygu a'n bwriad yw i weithio'n agos gyda dau LEP i ddatblygu mecanweithiau ymgysylltu busnes effeithiol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiol, gan rannu'r wybodaeth hon ag eraill wedyn,

Targedau allwedol ar gyfer 2009-12	Ein cynnydd erbyn Mawrth 2011
Gostyngiad o 10% yn y beichiau gwirioneddol ar wasanaethau rheoleiddiol awdurdod lleol	Trefnir asesiad ar gyfer 2011-12 yn erbyn y ffigwr sylfanol o £6 miliwn a sefydlwyd yn Rhagfyr 2009
Mae 60% o awdurdodau lleol wedi hunan-asesu yn erbyn y Fframwaith Rhagoriaeth ac mae ganddynt gynllu gwella	Mae 43 o awdurdodau lleol (10%) wedi hunan-asesu ac wedi datblygu cynllun gwella yn 2009-10. Roedd cynnydd yn 2010-11 yn arafach a throsglwyddwyd cyfrifoldeb i'r sector erbyn hyn

Adnoddau pellach ar gyfer cyfeirio ar wefan LBRO

Safonau Proffesiynol Cymhwysedd i Reolyddion, LBRO, Chwefror 2011
O Ben Busnes y Telesgop: Persbectifau ar Reoleiddio a Gorfodi Lleol, LBRO, Hydref 2010
Gwell Reoleiddio o Gynhyrchion a gyfyngir o ran oedran, Grŵp Adolygu – Panel Cyfeirio Busnes LBRO, Medi 2010
Symleiddio'r System Reoleiddiol Leol, LBRO, Medi 2010

Goleubwynt: Cyngori i'r Llywodraeth

Darparwyd adnodd gwerthfawr i wneuthurwyr polisi a rheolyddion ill dau gan *O Ben Busnes y Telesgop* a gyhoeddwyd ym Medi 2010. Crynhöwyd hwn gan ddefnyddio adborth oddi wrth ein Panel Cyfeirio Busnes. Mae'n galw am ddiwylliant newydd, ac mae'n hysbysu'r datblygiad o fesurau ymarferol i gynyddu gwerth rhyngweithiadau â rheolyddion lleol. Trwy ein gwaith ar agweddau rheoleiddiol amgen a safonau proffesiynol sy'n canolbwyntio ar fusnes rydym yn symud y casgliadau ymlaen yn weithredol. Mae'n glir bod y nod i reolyddion a mwyafrif mawr y busnesau rheoleiddieig yr un: cydymffurfio amserol, cost-effeithiol, cynaliadwy.

"Mae awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol wrth orfodi rheoleiddio yn ein cymunedau, felly maent yn bartneriaid hanfodol wrth inni ddod o hyd i ffyrdd newydd i gyfuno diogelwch y cyhoedd â thwf busnes. Mae angen inni symud tuag at system sydd wedi'i seilio ar risg mewn gwirionedd, a sylfaenir ar bragmatiaeth, cymhwysedd ac ymddiriedaeth. Rhaid mai annog rheolyddion a busnesau i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni cyd-amcanion yw'r ffordd ymlaen. Gobeithio bod y cynigion dadreoli yn yr adroddiad hwn yn ysbrydoliaeth i reolyddion ar draws y wlad."

Mark Prisk AS, Gweinidog Gwladol dros Fusnes a Menter

Sylwadau'r Rheolwyr

Rhagolwg

Amcan cyffredinol ein gwaith yw cyflawni rheoleiddio gwell ar lefel leol, yn adeiladu ar y sylfeini cryf a ddarparwyd gan Adolygiad Hampton yn 2005. Rydym eisiau sicrhau bod rheoleiddio'n:

- cael ei dargedu ar sail risg a dealltwriaeth lawn o'r problemau;
- gyson ac yn dryloyw wrth gael ei weithredu;
- gymesur i'r bygythiad a gyflwynir; ac yn
- atebol i ddinasyddion ac i fusnesau.

Rydym yn hybu agwedd systematig at reoleiddio, sydd wedi'i seilio ar risg. Mae hyn yn golygu creu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn sy'n:

- cefnogi ffurfio partneriaethau lleol effeithiol;
- datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniad; ac yn
- gwella atebolrwydd i fusnesau ac i ddinasyddion.

Mewn cysylltiad â gwasanaethau rheoleiddiol, dylai'r risg a gyflwynir i bobl ac i'r amgylchedd fod yn sylfaenol i'r gadwyn gyflawni, gan gynnwys dyrannu adnoddau, rheoli gweithredu, a defnyddio sancsiynau.

Un nod yw datblygu model gweithredol newydd y gall busnesau fod yn bartneriaid ynddo wrth gyflawni cydymffurfio a chanlyniadau gwell. Ni ddylai'r berthynas rhwng rheolyddion a'r rhai a reoleiddir fod yn rhy agos ond yn hytrach dylid ei seilio ar barch cydfuddiannol a dylid cael ei ffurfio gan ymatebolrwydd i bryderon dilys. Ar ben hynny, er ein bod yn gweithio gyda busnes rydym yn cydnabod cyfraniad hanfodol y rhai a fydd yn elwa o reoleiddio: dinasyddion a defnyddwyr. Yn ei ystyr ehangaf, mae cyd-gynghyrchu'n ddeialog tair-ffordd yn hytrach na ddwy-ffordd, fel a ddangosir yn Ffigwr 2. Y cefndir angenrheidiol yw newid diwylliant, yn nhermau ymddygiad ac iaith ymgysylltu ill dau.

Gweithgareddau

Rydym yn gweithio i sicrhau rheoleiddio effeithiol o fusnesau gan wasanaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol: iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, trwyddedu a safonau masnach.

Ein briffiad penodol yw i ostwg biwrocratiaeth ar gyfer cwmnïau sy'n ufudd i'r gyfraith, i ganiatáu mwy o ganolbwyntio ar ddelio â masnachwyr twyllodrus sy'n niweidio pobl hyglwyf ac sy'n difrodi ein cymunedau. Rydym yn ymdrechu i'w wneud yn haws i gynghorau cynghori ar y rheolau a'u gweithredu, gan ei wneud yn symlach i fusnesau eu deall.



Ffigwr 2: Cydgynhyrchu

Ar ôl cael ei sefydlu yn 2007 fel cwmni cyfyngedig a oedd yn eiddo i'r Llywodraeth, daeth LBRO yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol (NDPB) yn sgil cychwyn y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau ar Hydref 1 2008. Hefyd rhoddodd hon y pwerau inni sy'n ffurfio'n sylfaen ar gyfer gweithredu Ein chwech swyddogaeth statudol yw i:

- weithredu Awdurdod Sylfaenol;
- roi cyngor i'r Llywodraeth ar reoleiddio lleol;
- gyhoedi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol;
- reoli'r rhestr o flaenoriaethau gorfodi cenedlaethol;
- hybu arloesedd ac arfer da; ac i
- ddatblygu partneriaethau ffurfiol gyda rheolyddion cenedlaethol.

Mae LBRO yn atebol i BIS drwy'r BRE, yn gweithredu yng ngolau ei Gynllun Diwygio Strwythurol, a gyflwynwyd ym Mehefin 2010. Mae hyn yn rhan allweddol o'r Cynllun Busnes ehangach, yn manylu ar y gweithredoedd sydd angen i gyflawni yn erbyn naw blaenoriaeth. Y pedair mwyaf perthnasol i LBRO yw i:

- hybu menter a gwneud y ganrif hon yn ganrif yr entrepreneur;
- roi hwb i allforion ac i fuddsoddi o'r tu allan;
- greu amgylchedd fusnes gadarnhaol; ac i
- warchod ac i alluogi defnyddwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cwmpasu'r DU, ond mae ei faint yn amrywio, felly rydym yn cydweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod ein gwaith yn briodol i sefyllfa gyfansoddiadol pob un. Er enghraifft, hysbysir ein ymgysylltu â busnesau yn Yr Alban gan fynychu'r Grŵp Adolygu Rheoleiddiol, ond yng Ngogledd Iwerddon fe'n harweinir gan y Datganiad o Fwriad a gytunwyd gan yr awdurdodau lleol a'r Cynulliad.

Yng Nghymru rydym yn gweithredu ar sylfaen cynllun busnes blynyddol gwahanol ag ariannu penodol, a oruchwylir gan uwch swyddog polisi penodedig. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda LBRO i ddatblygu agwedd gyson at gyflawni rheoleiddio gwell ar draws y DU a anelir at angen. Mae gan hyn oblygiadau am fformat a ffocws y gweithgareddau a ymgymerir â hwy gan y gwasanaethau rheoleiddiol mewn meysydd fel dosbarthu arfer gorau, gweithredu sancsiynau sifil, ac ymgysylltu â chwsmeriaid. Hefyd rydym yn rhoi cyngor i weinidogion Cymru ar reoleiddio lleol.

Rydym yn gweithio i gyflawni effaith wirioneddol, gan ystyried ein gwerthoedd craidd – canolbwyntio ar ganlyniad, seiliedig ar dystiolaeth, creadigol, heriol a chefnogol – tra'n cyflwyno ein mentrau yng nhyd-destun y darlun mwy. Mae gwasanaethau rheoleiddiol yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at greu cymunedau bywiog ac yn aml maent yn cyflawni mwy nag y disgwylid, er eu bod yn derbyn llai nag 1 y cant o wariant awdurdod lleol y DU. Mae ein hymdrechion yn rhan ganolog o'r gweithredu a wneir gan gynghorau i gynyddu ffyniant.

Adolygir ein gwaith prosiect yn ystod 2010-11 yn yr adran berfformiad ar dudalen 11 i 21.

Hefyd rydym wedi parhau i ddatblygu fel sefydliad. Hogwyd sgiliau ein staff i gyd drwy gymysgedd o dechnegau gan gynnwys gwersi preifat ac hyfforddi, â'r nod cyffredinol o wella effaith a chyflawni ein mentrau. Ar ben hynny, defnyddiwyd ein swyddfa yn Birmingham yn gynyddol fel canolbwynt ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ogystal â fel lleoliad cyfleus i gwrdd ac i weithio.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol, pan y symudir gwaith LBRO ymlaen gan gorff symlach newydd o fewn BIS, y blaenoriaethau fydd i estyn egwyddorion Awdurdod Sylfaenol i SMEau ac i gymdeithasau masnach, i weithio gydag LEPau a Pharthau Menter i'w helpu i greu'r amodau ar gyfer cyflawni rheoleiddiol gwell, ac i weithio gydag ystod eang o randdeiliaid i ostwng dyblygu a chymhlethdod yn y system reoleiddiol.

Un nod fydd i sicrhau y gall rheolyddion proffesiynol ganolbwyntio ar gwrdd ag anghenion busnes yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Bydd yr angen i symleiddio'r fframweithiau am asesu risg, cymhwysedd proffesiynol a rhannu data'n parhau, gan hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ganlyniad o fewn rheoleiddio.

Llywodraethu

Mewn cysylltiad â llywodraethu, fe'n hysbysir gan ddatganiad y rheolwyr a gytunwyd yn wreiddiol gyda BIS – sy'n gosod y fframwaith gweithredol eang - a'n polisïau unigol. Hefyd rydym yn gweithio gyda golwg ar ein Memoranda Dealltwriaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Comisiwn Hapchwarae, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Swyddfa Masnachu Teg: ofyniad statudol o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsinau 2008.

Y Bwrdd

Cyfeiriad cyffredinol LBRO yw cyfifoldeb ei fwrdd annibynnol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. O Fawrh 31 2011 ymlaen, roedd gan y bwrdd chwech aelod: pump sy'n anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd) ac un ex-officio (y Prif Weithredwr). Maent yn gweithredu fel cenhadon i LBRO, yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid ar y lefelau uchaf. Maent i gyd yn cadw at God Arfer Gorau'r Trysorlys ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus, ac at egwyddorion Nolan am safonau mewn bywyd cyhoeddus.

At ei gilydd, mae'r Bwrdd yn darparu arbenigedd ar bob un o'r pedwar maes o lywodraethu:

- arweiniad a gallu ;
- perfformiad a rheolaeth;
- rheoli risg; a
- chraffu.

Yn unigol, mae aelodau anweithredol yn canolbwyntio ar feysydd penodol, yn darparu her ac arweiniad ble mae angen:

	Dyddiadau penodi	Dyddiadau adnewyddu	Termau adnewyddu
Clive Grace, Cadeirydd	01/06/2007	01/06/2012	Amh.
Uday Dholakia OBE	01/09/2007	01/09/2010	3 years
Ann Hemingway CBE	01/09/2007	01/09/2010	3 years
Robert Leak	01/09/2007	01/09/2010	2 years
David Thurston	01/09/2007	01/09/2010	2 years

Lleiheuwyd y Bwrdd o naw i chwech aelod ar 01/09/2010, yn sgil gorffen y contractau i Robin Dahlberg, Michael Gibson a Rebecca Marsh. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus blynyddol cyntaf LBRO yn Birmingham ar Fedi 8 2009 a chynhaliwyd yr ail yng Nghaerdydd ar Dachwedd 17 2010.

Y Weithreiaeth

Mae gweithrediaeth LBRO yn dîm hyfedr, agos-atoch sy'n cyflawni gweledigaeth a strategaeth y Bwrdd, yn darparu'r wybodaeth sydd angen I hysbysu wrth wneud penderfyniadau. Rhennir personél yn gronfeydd adnoddau, fel a ddabngosir yn Ffigwr 3. I ddilyn ein agenda eang, rydym yn arfer gwethio hefyd gyda chydweithwyr ag arbenigedd mewn meysydd perthnasol. Mae arweiniad a rheolaeth gweithredoedd dydd-i-ddydd yn gyfrifoldeb yr Uwch Dîm Rheoli, sy'n cynnwys pum aelod ers Marth 31 2011::

Graham Russell	Prif Weithredwr
Sarah Smith	Cyfarwyddwr
Claire Bridges	Cyfarwyddwr
Rob Powell	Cyfarwyddwr
Richard Wilson	Cyfarwyddwr

Mae Claire Bridges ar secondiad o Wella a Datblygu Awdurdod Lleol tan Ionawr 2012. Dychwelodd Wendy McVey, a oedd ar secondiad o HSE, i HSE ym Mawrth 2011, â'i swydd – Cyfarwyddwraig Strategaeth Corfforaethol a Chymorth i'r Bwrdd – yn dod i ben fel rhan o symleiddio'r sefydliad.



Ffigwr 3: Cronfeydd adnoddau LBRO

Darperir proffilau cryno o'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli ar ein gwefan www.lbro.org.uk, ynghyd â'r gofrestr buddiannau.

Pwyllgor Archwilio

Mae materion sy'n perthyn i weithdrefnau cyfrifyddu, datgan ariannol, rheolaethau mewnol a rheoli risg yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Archwilio. Mae hwn yn gweithredu'n unol â'i gylch gorchwyl a *Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio* Trysorlys EM. Mae'n cwrdd yn ffurfiol o leiaf dargwaith y flwyddyn. O Fawrth 31 2011 ymlaen roedd ganddo dri aelod:

Robert Leak	Aelod y Bwrdd / Cadeirydd
Ann Hemingway CBE	Aelod y Bwrdd
Uday Dholakia OBE	Aelod y Bwrdd

Mae'r Bwrdd Archwilio'n gwahodd i bobl eraill fynychu'r cyfarfodydd o'r weithrediaeth (gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu a'r Cyfarwyddwr Adnoddau), archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Polisi a datganiadau polisi

Rydym wedi datblygu polisïau corfforaethol mewn nifer o feysydd allweddol. Yn gyffredinol, y rhain:

- esbonio ein hagwedd sylfaenol;
- egluro agweddau allweddol cydymffurfio;
- pennu rolau a chyfrifoldebau; ac
- adnabod y prif weithdrefnau datgan.

Risg

Gan ein bod yn gorff bach â rhaglenni lluosog, mae rheoli risg effeithiol yn allweddol i gyflawni ein tri amcan strategol. Yn arbennig, mae'n bwysig yr adnabyddir risgau'n gywir a'u gwerthuso cyn gynted â phosibl. Hyrwyddir diwylliant sefydliadol o ymwybyddiaeth risg, gyda rheolwyr sy'n gyfrifol am hybu arfer da gyda'u timau eu hunain, a chyda'r Bwrdd yn derbyn cyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg ac am osod archwaeth am risg. Rhoddir manylion pellach ar ein hagwedd at risg yn y Datganiad ar Reolaeth, ar dudalennau 36 i 39. Hefyd mae hyn yn darparu gwybodaeth ar drafod data. Nid oedd gan LBRO ddim digwyddiadau personol a oedd yn perthyn i ddata yn ystod 2010-11.

Yr Amgylchedd

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau moesegol ac rydym yn ymrwymiedig i greu ac i gynnal amgylchedd na fydd yn peryglu galluoedd ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol. O ystyried hyn, rydym yn ymrwymiedig i arfer gorau wrth gael gwared ar ddeunyddiau ac wrth ddatblygu rheolaethau ynni a gwastraff. Er enghraifft, hybir defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn gryf – drwy'r fath fodd â benthyciadau teithio – gosodir y goleuadau yn ein swyddfa i droi i ffwrdd yn awtomatig os nad oes symud, a chesglir yr holl bapur heb ei heisiau i'w ailgylchu. Rydym yn anelu at adlewyrchu gweledigaeth y Llywodraeth o gynaliadwyedd ble mae'n bosibl. Bwriadwn fonitro effeithiolrwydd ein mesurau rheoli a'n heffaith amgylcheddol, er mwyn creu diwylliant o wella parhaus.

Cwynion

Rydym yn anelu at ddatrys pob cwyn yn gyflym. Byddwn yn eu cydnabod o fewn pum niwrnod gweithio o'u derbyn gan ymateb i'r cwynwr o fewn 10 ble mae'n bosibl, gan adnabod gweithredoedd rydym wedi'u cymryd neu y byddwn yn eu cymryd fel canlyniad. Os na ellir mynd i'r afael â chwyn o fewn yr amserlen hon byddwn yn dweud wrth y cwynwr am unrhyw oedi, caiff y cwynwr wybod am gynnydd a chaiff wybod pryd y gall ddisgwyl ymateb. Ble mae cwynwr yn dal yn anfodlon, gellir cyfeirio cwyn i'r Prif Weithredwr iddo gael ei ystyried, wedyn y Bwrdd, ac yn y pen draw yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Ni dderbyniwyd cwynion yn 2010-11.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym yn ymrwymiedig i gyfle cyfartal ac amrywiaeth ar gyfer y staff a staff posibl i gyd. Ni fyddwn yn gwahaniaethu ar sail rhywedd, hil, tarddiad ethnig na chenedlaethol, anabledd, crefydd na chred, cyfeiriadedd rhywiol, statws partneriaeth priodasol/sifil, nag oedran. Seilir asesu at ddibenion recriwtio, dewis, hyfforddi a chynnydd gyrfaol yn gyfangwbl ar allu ac addasrwydd unigolyn am y gwaith. Rydym yn ymrwymiedig i ddarparu cyfleoedd i'r holl staff iddynt wneud y mwyaf o'u sgiliau ac i gyflawni eu potensial, yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg ble bynnag mae'n bosibl. Hefyd rydym yn ymrwymiedig i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle i bobl ag anableddau, yn addasu trefniadau gweithio ble mae'n resymol. Rydym yn hybu gweithlu amrywiol ac anelwn at ddarparu amgylchedd gweithio ble gwerthfawrogir a pharchir staff ar bob lefel a ble na ddioddefir gwahaniaethu, bwlio nag aflonyddu.

Rhyddid gwybodaeth

Rydym yn ymrwymiedig i egwyddorion rhyddid gwybodaeth. O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae hawl mynediad gyffredinol i'r wybodaeth sydd yn ein meddiant, yn hyrwyddo mwy o ddidwylledd ac atebolrwydd, ac hwyluso dealltwriaeth well o'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwario arian cyhoeddus. Rydym yn cadarnhau ein cydnabyddiaeth o 'hawl I wybod' pobl a gweithredwn system o fynediad gan ragdybio bod gwybodaeth yn agored oni bai fod rheswm dilys i rwystro mynediad. Rydym yn rhestru'r holl gwestiynau a dderbynnir o dan y Ddeddf ac mae ein hymatebion ar ein gwefan. Atebwyd wyth yn 2010-11.

Iechyd a diogelwch

Ein nod yw i weithredu'n gadarnhaol ac yn ryngweithiol er mwyn atal anaf, afiechyd, niwed a cholled sy'n codi o'n gweithgareddau, yn ogystal â chydymffurfio'n llawn â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Ein polisi yw i gynnal amgylchedd ddiogel, yn estyn i beiriannau ac offer; gweithio, gweithdrefnau argyfwng a datgan; ymwybyddiaeth, hyfforddi a goruchwylio staff; a gwerthuso. Ymgynghorir â'r holl staff ar sylfaen gyfredol drwy ein fforwm i'r cyflogeion ar faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u diogelwch yn y gwaith. Hefyd mae marsialiaid tân a swyddogion cymorth cyntaf dynodedig a chymwys. Roedd un damwain bach yn 2010-11.

Salwch

Mewn cysylltiad ag absenoldeb salwch, y canran o ddiwrnodau gweithio a gollwyd yn 2010-11 oedd 3 y cant ar y cyfan, yn gyfwerth â 7.4 diwrnod y cyflogai. Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r rheini yn 2009-10 (2 y cant a 4.5 diwrnod) ac maent yn adlewyrchu cyfnodau o wellhad i nifer o aelodau'r tîm yn sgil llawfeddygaeth arwyddocaol. Cyfartaledd y sector cyhoeddus yw 9.6 diwrnod y flwyddyn I bob cyflogai.

Talu cyflenwyr

Rydym yn bwriadu cydymffurfio â safonau a thargedau cyfredol y Llywodraeth ynghylch taliadau i gredydwyr, ac anelwn at dalu pob credydwr o fewn wyth diwrnod gweithio o ddyddiad derbyn yr anfoneb. Yn 2010-11 cyflawnwyd hyn 99.35 y cant o'r amser (o gymharu ag 83 y cant yn 2009-10).

Sefyllfa ariannol a chanlyniadau am y flwyddyn

Cynlluniwyd cynllun busnes LBRO ar gyfer 2010-11 i gyflawni ei amcanion statudol a strategol, yn yr ail flwyddyn lawn ar ôl dod yn NDPB statudol.

Cyfarwyddyd Cyfrifon

Paratöwyd y cyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Arloesedd a Sgiliau (gynt Busnes, Arloesedd a Diwygio Rheoleiddiol) â chydsyniad Trysorlys EM yn unol â'r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (Deddf RES). Mae'r Ddeddf yn gofyn i gyfrifon gael eu cynhyrchu a'u harchwilio ar gyfer cyfnodau sy'n cychwyn ar Hydref 1 2008.

Ariannu

Mae LBRO yn derbyn y rhan fwyaf o'i incwm fel cymorth grant oddi wrth BIS. Yn 2010-11, y dyraniad oedd £3.71 miliwn.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru LBRO i ymgymryd â phrosiectau rheoleiddiol penodol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn yn erbyn ei chynllun busnes a gytunwyd gyda LBRO. Y cyfanswm a dderbyniwyd am gyflawni'r rhaglen hon o waith oedd £200,000.

Canlyniadau am y flwyddyn

Y diffyg gweithredu clir am y cyfnod 12-mis i Fawrth 31 2011 oedd £3,593,553. Cyfanswm y cymorth grant o'r noddwr oedd £3,619,000. Y gweddill clir oedd £25,447. Yn ychwanegol gwariwyd gwariant cyfalaf o £97,220 ar asedau sefydlog, ar gyfer Cyfnod 3 y gronfa data Awdurdod Sylfaenol, newidiadau i swyddfeydd, ac offer TG newydd, ac ychwanegwyd £25,000 i asedau sefydlog ar gyfer dadfeiliadau yn unol â safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae'r gweddill clir, ar ôl caniatáu am wariant cyfalaf a dadfeiliadau, yn dod yn ddiffyg clir o £96,773.

Mae ffigwr 4 yn dangos y dadansoddiad o gyfanswm y gwariant o'r cyfrif gwariant clir ynghyd â llog les cyllid a gwariant cyfalaf, yn rhoi cyfanswm o £4,063,755.

Mae'r datganiad ar y sefyllfa ariannol ar Fawrth 31 2011 yn dangos asedau clir o £499,053, a gynrychiolir gan y gronfa gyffredinol. Mae asedau anghyfredol yn gyfran arwyddocaol o'r datganiad ar y sefyllfa ariannol ar £462,489.

Y dyraniad cyllidebol o BIS ar gyfer 2011-12 yw £3,112,000, ostyngiad o £598,000 (16 y cant) yn erbyn y dyraniad cymorth grant 2010-11. Rydym yn disgwyl rheoli'r gostyngiad hwn tra'n cwrdd â'n rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol, bydd LBRO yn dod i ben fel NDPB yn ystod 2011-12 a chyflawnir y swyddogaethau sy'n weddill gan uned annibynnol o fewn BIS.



Ffigwr 4: Cyfanswm gwariant LBRO yn 2010-11

Archwilwyr

Archwiliwyd y datganiadau ariannol gan y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol. Cost yr archwiliad statudol oedd £17,000. Nid oedd tâl am swyddogaethau an-archwiliadol.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yn ymwybodol ohonynt, a rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn i fod wedi'i gymryd i ddod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr LBRO yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Adroddiad tâl

Polisi tâl

Mae polisi tâl LBRO ar gyfer Uwch reolwyr yn rhan o'r polisi tâl ar gyfer yr holl sefydliad.

Gosodir salari a thermau ac amodau eraill ar gyfer pob gradd staff y sefydliad:

- i adlewyrchu 'r angen i recriwti, i gynnal ac i symbylu pobl â chymwysterau addas i ymarfer eu cyfrifoldebau gwahanol;
- i wobrwyo pobl yn gyfartal am eu cyfraniad wrth gyflawni amcanion y sefydliad; ac
- yn unol â tharged y Llywodraeth.

Gosodir tâl y Prif Weithredwr yn unol â'r egwyddorion a osodir uchod. Mae tâl y Prif Weithredwr yn destun cymeradwyaeth gan BIS.

Contractau gwasanaeth

Gwneir penodiadau o uwch reolwyr LBRO ar sail teilyngdod ac fe'u seilir ar gystadleuaeth deg ac agored.

Oni bai y datganir i'r gwrthwyneb isod, mae'r uwch reolwyr a drafodir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau llawn-amser fel swyddogion LBRO. Yr eithriadau yw Wendy McVey, a benodwyd ar Fawrth 16 2009 ar secondiad dwy flynedd o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a ddaeth i ben ar Fawrth 15 2011, a Claire Bridges, a benodwyd ar Ionawr 11 2010 ar secondiad dwy flynedd o Wella a Datblygu Llywodraeth Leol. Y cyfnod o rybudd ar gyfer terfynu yw tri mis..

Dangosir tâl a delir i'r Prif Weithredwr, i'r Cyfarwyddwyr ac i aelodau o'r Bwrdd yn Nhabl 1. Archwilir y wybodaeth hon fel rhan o archwilio'r cyfrifon blynyddol.

Mae'r swyddogion Gweithredol a restrir uchod ar gyfnodau rhybudd o dri mis. Mae cyfarwyddwyr anweithredol ar gontractau cyfnod penodol hyd at Fedi 1 2010, â chontractau dwy flynedd cychwynnol yn cael eu gwneud yn gyffiniol â'r rheini sydd ar gontractau tair blynedd, ag eithrio'r Cadeirydd sydd ar gontract pum mlynedd.

Salari

Mae 'Salari' yn cynnwys salari sylfaenol ac unryw lwfans arall yn gymaint ag ei fod yn destun trethi'r DU. Talwyd bonysau i ddau gyfarwyddwr.

Mae'r Bwrdd yn adolygu perfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn yr amcanion a osodir ar ddechrau'r flwyddyn ac yn cytuno unrhyw godiad tâl cyfun a bonws.

Seilir bonysau cyfarwyddwyr ar ganlyniadau eu harfarniadau blynyddol ac ar gyfarwyddyd a gynhwysir yng Nghylch Gwaith Tâl y Llywodraeth.

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

Tabl 1: Adroddiad tâl cyfnod a ddaeth i ben Mawrth 31 2011

Ffigyrau mewn £000au		Dyddiad penodi	Salari/tâl	Bonws	Cyfanswm am y cyfnod	Cyfnod balaeno rol
Gwiethredol						
Prif Weithredwr	Graham Russell	3/9/07	90-95	-	90-95	90-95
Cyfarwyddwr	Sarah Smith	29/10/07	70-75	0-5	70-75	65-70
Cyfarwyddwr	Claire Bridges(1)	11/1/10	65-70	-	65-70	10-15
Cyfarwyddwr	Rob Powell	7/4/10	65-70	-	65-70	65-70
Cyfarwyddwr	Wendy McVey(1)	16/03/09 to 15/03/11	55-60	5-10	65-70	55-60
Cyfarwyddwr	Richard Wilson	29/10/07	55-60	-	55-60	55-60
Anweithredol						
Cadeirydd (2)	Clive Grace	1/6/07	45-50	-	45-50	45-50
Aelod bwrdd (3)	Robin Dahlberg	1/9/07 to 31/8/10	5-10	-	5-10	20-25
Aelod bwrdd (3)	Uday Dholakia	1/9/07	15-20	-	15-20	20-25
Aelod bwrdd (3)	Michael Gibson	1/9/07 to 31/8/10	5-10	-	5-10	20-25
Aelod bwrdd (3)	Ann Hemingway	1/9/07	15-20	-	15-20	20-25
Aelod bwrdd (3)	Robert Leak	1/9/07	5-10	-	5-10	10-15
Aelod bwrdd (3)	Rebecca Marsh	1/9/07 to 31/8/10	5-10	-	5-10	20-25
Aelod bwrdd (3)	David Thurston	1/9/07	15-20	-	15-20	20-25

Nodyn:
1) Secondeion
2) 80 diwrnod y flwyddyn
3) Wedi'i dalu hyd at 32 diwrnod y flwyddyn i 31/8/10, 24 diwrnod wedyn
4) Enillion wedi'u talu i'r cyflogwr, Bwrdeistref Llundain, Enfield

Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac fe'u trafodir gan HMRC fel enillion trethadwy. Ni thynnodd aelod o'r Bwrdd na Chyfarwyddwyr ddim buddion mewn nwyddau yn ystod y cyfnod hwn.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CPS) ac mae'r holl Gyfarwyddwyr yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gall Cyfarwyddwyr fod mewn un o ddau gynllun buddion 'salari cyfartalog' diffiniedig (NUVOS a Phartneriaeth). Nid ariannir y cynlluniau, â chost y buddion yn dod o arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn.

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys am drefniadau cynllun pensiwn.

Cynhwysir manylion pellach yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol a gellir dod o hyd i ragor o fanylion am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Hawliau pensiwn

Yr hawlau pensiwn a ddangosir yn Nhabl 2 yw'r rheini a fyddai'n cael eu talu'n flynyddol ar ymddeol, yn seiliedig ar wasanaeth hyd at Fawth 31 2011, gan gynnwys gwerth y blynyddoedd ychwanegedig a delir ar gyfer aelodau'r CPS. Mae gan aelodau'r cynllun pensiwn yr opsiwn I dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ond nid oes neb yn y tabl yn ymarfes yr opsiwn hwn ar hyn o bryd.

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

Tabl 2: Hawliau pensiwn - cyfnod a ddaeth i ben Mawrh 31 2011

	Band salari	Codiad gwir mewn buddion pensiwn cronnus ar oed 60	Pensiwn cronnus ar oed 60 ar Faw. 31 2011 a chyfanddaliad perthnasol	CETV ar Ebrill 1 2010	CETV ar Ebrill 1 2010 (Wedi'i adolygu)	CETV ar Fawrth 31 2011	Codiad gwir mewn CETV fel a ariannir gan y cyflogwr
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwiethredol							
Graham Russe	# - #	00-2.5 cyfandaliad N/A	50-55 cyfandaliad N/A	502	427	501	8
Rob Powell	# - #	0-2.5 cyfandaliad N/A	10-15 35-40	n/a	97	118	7
Sarah Smith	# - #	0-2.5 cyfandaliad N/A	20-25 cyfandaliad N/A	139	111	140	11
Richard Wilson	# - #	0-2.5 cyfandaliad N/A	0-5 cyfandaliad N/A	35	30	49	12

Gwerth trosglwyddo gyfwerth ag arian

Gwerth trosglwyddo gyfwerth ag arian (CETV) yw gwerth cyfalafog a asesir yn actwaraidd o'r buddion cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar unrhyw bwynt neilltuol mewn amser. Y buddion a brisir yw buddion cronedig aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'n daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu'n drefniad i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu'n drefniad pan yw'r aelod yn gadael cynllun gan ddewis trosglwyddo'r buddion pensiwn mae e/hi wedi'u cronni yn ei gynllun/chynllun blaenorol.

Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn perthyn i'r buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni fel canlyniad i'w wasanaeth actwaraidd llawn fel gwas cyhoeddus, nid yn unig i'w wasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae datgelu'n perthyn iddi.

Mae'r ffigyrau CETV yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i gynllun y Gwasanaeth Sifil ac mae'r Bleidlais Wasanaeth Sifil wedi derbyn trosglwyddiad amdanynt sy'n gymesur â'r ymrwymiadau pensiwn ychwanegol a ragdybir. Amcangyfrifir CETVau o fewn y canllawiau a'r fframwaith a osodir gan Sefydliad a Chyfadran Actiwarïaid.

Adolygwyd y ffactorau a ddefnyddiwyd yn yr amcangyfrif CETV yn ystod 2010-11 i gyfrif am y newid o ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu at y Mynegai Prisiau Defnyddwyr i amcangyfrif cynnydd pensiynau yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod y gwerth CETV cychwynnol a ddangosir yn adroddiad eleni'n wahanol i'r swm a ddangosir fel y gwerth CETV olaf yn adroddiad llynedd. Dangosir hyn fel colofn ychwanegol yn Nhabl2.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae'r cynnydd gwirioneddol mewn CETV yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariannir yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, gyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun pensiwn neu drefniad arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Graham Russell
Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr
LBRO

Mehefin 27 2011

Datganiadau ariannol am y cyfnod Ebrill 1 2010 i Fawrth 31 2011

Bwrdd ac Uwch Dîm Rheoli



Cyfeiriad cofrestredig

2nd Floor East
The Axis
10 Holliday Street
Birmingham
B1 1TG

Archwilwyr allanol

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Datganiad ar gyfrifoldebau LBRO a'r Prif Weithredwr

O dan baragraffau 13 (2) a 13 (3) o Atodlen 1 y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, mae angen i LBRO baratoi datganiad cyfrifon am bob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sylfaen a benderfynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, â chydsyniad Trysorlys EM. Paratöir y cyfrifon ar sylfaen groniadau ac mae rhaid iddynt ddangos darlun gwir a theg o gyflwr LBRO ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a'i wariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi cyfrifon mae angen i LBRO a'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FreM) ac yn neilltuol i:

- gadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifyddu addas ar sylfaen gyson;

- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sylfaen resymol;ddatgan ynghylch a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel a osodwyd yny FreM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau yn y datganiad ariannol;

- ddatgan ynghylch a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel a osodwyd yny FreM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau yn y datganiad ariannol; a

- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sylfaen gyfredol, oni bai nad yw'n briodol i ragdybio y bydd y corff yn parhau i weithredu.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu i Swyddfa'r Cabinet wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu i LBRO. Gosodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae'n atebol drosto, am gadw cofnodion iawn ac am warchod asedau'r awdurdod, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a argraffir gan Drysorlys EM ac a gyhoeddir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*

Datganiad ar Roli Mewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal system gadarn ar reoli mewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau,nodau ac amcanion LBRO, tra'n gwarchod yr arian cyhoeddus ac asedau LBRO yr wyf yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddynodwyd imi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus.*

Rwyf yn atebol i'r Bwrdd am sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol am benderfynu system LBRO ar reoli mewnol, yn adolygu ei effeithiolrwydd, ac yn adolgu'r polisi a'r strategaeth risg yn flynyddol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, is-bwyllgor y Bwrdd, yn fy nghynghori ar addasrwydd y trefniadau archwilio ac ar y sicrwydd a dderbynnir mewn cysylltiad â rheoli risg a rheoli mewnol.

Penderfynodd y Gweinidog i leihau'r Bwrdd o naw i chwech aelod o Fedi 1 2010, ar ôl i gontractau Robin Dahlberg, Michael Gibson a Rebecca Marsh ddod i ben. Rheolwyd y newid hwn drwy newidiadau priodol i weithgareddau a chyfrifoldebau'r Bwrdd gan gynnwys addasu Cylch Gwaith y Pwyllgor Archwilio. Daeth Uday Dholakia yn aelod o'r pwyllgor, yn cadw cynrychiolaeth y Bwrdd ar dri, a phenodwyd Robert Leak fel Cadeirydd. Roedd newidiadau mewn cyfrifoldebau cynrychiadol yn cynnwys Clive Grace yn mynychu'r Grŵp Diwygio Rheoleiddiol yn Yr Alban yn lle Michael Gibson.

Diben y system ar reoli mewnol

Cynllunir y system ar reoli mewnol i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na chael gwared ar bob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly mae'n gallu darparu sicrwydd rhesymol, nid llwyr, o effeithiolrwydd yn unig. Seilir y system ar reoli mewnol ar broses gyfredol a gynllunir i adnabod ac i flaenoriaethu'r risgau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion LBRO; i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgau hynny'n digwydd a'r effaith pe byddent yn digwydd; ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system ar reoli mewnol wedi bodoli yn LBRO am y cyfnod sy'n dod i ben ar Fawrth 31 2011 ac hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad a Chyfrifon, yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Y gallu i drafod risg

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn gweithredu fel eiriolwr risg dros LBRO. Fy rôl yw i sicrhau rheoli risg sy'n gadarn ac yn effeithiol, ac mae hyn yn sylfaenol i'r polisïau a'r gweithdrefnau i gyd. Defnyddir y broses cynllunio a chyllidebu i osod amcanion, i gytuno ar weithredoedd ac i ddyrannu adnoddau, ac asesir cynnydd yn rheolaidd. Monitrir a rheolir risgau allweddol drwy strwythur datgan cynhwysfawr. Gwneir penderfyniadau i adfer problemau mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r uwch dîm rheoli a'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiffinio a derbyn goddefgarwch ac archwaeth risg LBRO, ac am yrru'r diwylliant o reoli risg. Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau'n gyfrifol am sicrhau bod mesurau priodol i adnabod, i sgorio,i fonitro ac i reoli risg yn erbyn archwaeth risg yn bodoli, a'u bod yn effeithiol ac yn addas i'r diben. Gofynnir i reolwyr ddatgan ar gynnydd tuag at reoli risgau drwy gyflawni pethau perthnasol sy'n drosglwyddadwy ar sylfaen reolaidd. Mae hyn yn helpu i sefydlu rheoli risg fel rhan o system reoli risg ryngweithiol.

Y fframwaith risg a rheoli

Trafodir rheoli risg yn effeithiol yn LBRO. Mae polisi arweiniol yn egluro'r agwedd ac yn adnabod y prif weithdrefnau datgan. Ar lefel y Bwrdd, adolygir risgau corfforaethol, adnabyddir cyfleoedd ac asesir mecanweithiau rheoli. Amrywir yr archwaeth risg yn ôl risgau unigol, â gweithgareddau fel Awdurdod Sylfaenol a rheoli mewnol yn cael archwaeth (neu oddefgarwch) risg sy'n is na risgau eraill.

Mae cyfrifoldeb yn llifo drwy'r sefydliad, gyda staff yn rheoli risgau penodol a allai effeithio ar gyflawni eu hamcanion a'u targedau. Mae arweinwyr perfformiad yn creu ac yn cynnal eu cofrestrau risg eu hunain. Mae Grŵp Rhaglen a Pherfformiad yn craffu ar risgau'r rhaglen. Ystyrir risgau a adnabyddir fel rhai sy'n gyffredin i nifer o feysydd rhaglen neu sydd yn ddigon arwyddocaol i'w cynnwys o fewn y gofrestr risg corfforaethol. Cymedrolir risgau gan y Grŵp Rheoli Risg, ag argymhellion yn cael eu gwneud i'r Bwrdd.

Nid yw LBRO yn gweithredu diwylliant sy'n wrthwynebol i risg. I gyflawni ei agenda heriol, mae angen cymryd risgau. Fodd bynnag, rwyf eisiau iddynt gael eu gwerthuso'n iawn a'u rheoli'n briodol. Trwy wneud hyn, rwyf yn disgwyl ymateb gytbwys.

Mae elfennau allweddol fframwaith risg a rheoli LBRO fel sy'n canlyn:

- Rheolir risgau'n unol ag arfer gorau.
- Mae proses systematig ar gyfer adnabod, monitro a rheoli risgau mawr a wynebir gan LBRO wrth gyflawni ei amcanion a'i agenda.
- Adnabyddir risgau sy'n weddill, a chrëir cynlluniau gweithredu i'w lleddfu.
- Ychwanegir risgau at y cofrestrau risg corfforaethol a risg prosiect o amrywiaeth o fynonellau.
- Cynhelir adolygiadau yn unol â chylchoedd y Bwrdd, gyda pherchnogion risg er mwyn asesu perthnasedd y risgau a chryfder a phriodoldeb eu mesurau rheoli.
- Dogfennir gweithdrefnau a chanllawiau ariannol a rheoli'n glir.
- Adolygir systemau cyllidebu a datgan ariannol drwy archwilio mewnol, a chânt eu terfynu a'u cytuno gyda'r Pwyllgor Archwilio.
- Darperir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar bob problem arwyddocaol

Risgau mewn-blwyddyn

Rheolodd y sefydliad nifer o feysydd risg arwyddocaol:

- Effeithiodd y pwysau ariannol ar fusnesau, awdurdodau lleol a rheolyddion cenedlaethol yn y flwyddyn ar eu gallu i ymgysylltu ac i gychwyn newid. Roedd rhaid addasu ein rhaglenni er mwyn cwrdd ag amgylchedd awdurdodi newidiol.
- Roedd LBRO yn destun adolygiad Llywodraeth-eang o gyrff cyhoeddus, ac roedd yn hanfodol i gynnal cyflawni rhaglenni a hyder ein partneriaid a'n cwsmeriaid yn ystod cyfnod o ansicrwydd.
- Roedd effaith yr adolygiad, a chyfyngderau gwariant y Grŵp Effeithlonrwydd a Diwygio, yn golygu bod rhaid inni ganolbwyntio ar fecanweithiau cyflawni effeithlon a chanfod ffyrdd newydd o weithredu. Fel canlyniad, adnabyddwyd tanwariant o £91,000 yn y trydydd chwarter a gostyngwyd y tyniad-i-lawr cymorth grant yn y chwarter olaf gan y swm hwn.

Sicrwydd gwybodaeth

Er bod LBRO'n meddu ar ychydig yn unig o wybodaeth sy'n bersonol neu sy'n warchodedig mae'n cymryd sicrwydd gwybodaeth o ddifri gan drafod ei gofnodion mewn modd a fydd yn gwarchod yr unigolyn a'r sefydliadau, er lles y cyhoedd.

Cyflawnodd LBRO Set Ddogfen Rheoli Risg ac Achredu yn Awst 2009. Mae'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth wedi asesu nad oes dim o bwys wedi newid ers y dyddiad hwnnw.

Yn ystod y flwyddyn mynychodd staff nifer o ddigwyddiadau hyfforddi Swyddfa'r Cabinet ac adran noddi. Mae LBRO wedi parhau i weithio gyda'r adran noddi a'theulu' ehangach i sicrhau cydymffurfiad llawn o fewn amserlen resymol. Mae cyfanswm o 20 (74%) o staff a Pherchnogion Ased Wybodaeth wedi cyflawni modiwl hyfforddi ar-lein Gwarchod Gwybodaeth Lefel 1 yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol ac mae wyth (30%) wedi cyflawni Lefel 2.

Ni ddatganwyd dim digwyddiadau pwysig yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth hyd yn hyn, ac ni chofnodwyd ac ni ddatganwyd camdrafod data gwarchodedig personol yn ystod y cyfnod.

Bydd LBRO yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau'r Llywodraeth ar y mater hwn, yn gweithio'n agos gyda'r adran noddi.

Datgan ar archwilio mewnol

Mae LBRO wedi cytuno contract gyda gwasanaeth archwilio mewnol yr adran noddi BIS i ddarparu sicrwydd i'r sefydliad ac i'w randdeiliaid. Yn ystod y flwyddyn i Fawrth 31 2011 mae'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi ymgymryd â nifer o adolygiadau, a grynhöir yn Nhabl 3.

Mae LBRO yn ystyried systemau cadarn o lywodraethu a rheoli fel elfennau hanfodol, sy'n sylfaenol i'w rôl wrth gyflawni ei amcanion allweddol. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n chwarae rhan sylfaenol yn y broses hon, gan sicrhau bod y sefydliad yn ymateb yn gadarnhaol i gasgliadau ac i argymhellion oddi wrth ein hadroddiadau archwilio mewnol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, yr argymhellion mwyaf arwyddocaol oedd y rhai ynghylch gwahanu dyletswyddau a therfynau cerdyn credyd corfforaethol. Gweithredwyd yn brydlon i fynd i'r afael â phryderon ynghylch gwahanu dyletswyddau sy'n bodoli mewn sefydliad bach iawn a gostyngwyd terfynau cerdyn credyd at lefelau sy'n gyson â gofynion gweithredol.

Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb am adolgu effeithiolrwydd y system ar reoli mewnol. Hysbysir fy adolygiad gan ffynonellau amrywiol, yn arbennig gwaith yr archwilwyr mewnol annibynnol, y rheolwyr gweithredol o fewn LBRO sydd â chyrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Fe'm cynghorir ar oblygiadau canlyniadau'r adolygiadau gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio. Ble maent yn ystyried ei fod yn angenrheidiol, byddant yn fy nghynghori ar fecanweithiau a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau a adnabyddir ac i wella'r system. Byddaf yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hysgrifennu a'u mabwysiadu fel sy'n briodol.

Mae unrhyw system ar reoli mewnol yn amodol ar ddatblygu, a chredaf fod ymateb ymgysylltiol a chadarnhaol LBRO tuag at argymhellion archwilio'n ei wneud yn gryfach. Mae hyn yn fy arwain at gasglu bod gan LBRO fframwaith rheoli a llywodraethu risg sy'n darparu sicrwydd rhesymol mewn cysylltiad â chyflawniad effeithiol o'i amcanion. Wrth i'r sefydliad gynllunio ar gyfer trawsnewid, yn amodol ar benderfyniadau'r Llywodraeth yn y dyfodol, rwyf yn hyderus y bydd y gweithdrefnau rydym wedi'u creu ar gyfer rheoli effeithiol ac effeithlon o gyflawni'n darparu sylfaen ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

Tabl 3: Crynodeb o archwiliadau mewnol		
Archwiliad mewnol	**Barn cyffredinol**	**Ymateb y rheolwyre**
Rheoli cylledibol	Amgylchedd reoli gadarn	Ddim yn perthyn
Llywodraethu (anrhegion a lletygarwch)	Amgylchedd reoli gadarn	Ddim yn perthyn
Trefniadau rheoli risg	Amgylchedd reoli gadarn	Ddim yn perthyn
Systemau ariannol	Gwendidau arwyddocaol yn yr amgylchedd reoli	Mae gwahanu dyletswyddau'n anodd mewn tîm o ddau ond sefydlwyd defnyddwyr ychwanegol i awdurdodi taliadau electronig. Gostyngwyd terfynau cerdyn credyd; ailddiffiniwyd dogfenni derbynneb bwcio rhyngrwyd derbyniol; a chynyddwyd cydlofnodi. Datganir adroddiadau ar ddefnyddio'r modiwl cywiro i'r Pwyllgor Archwilio.
Talu treuliau	Rhai gwendidau yn yr amgylchedd reoli	Mae hyn yn gysylltiedig â'r problemau â chardiau credyd uchod.

Allwedd

Amgylchedd reoli gryf – Mae amgylchedd risg a rheoli gryf yn bodol â risg gweddilliol isel i gyflawni effeithiol ac effeithlon.

Rhai gwendidau yn yr amgylchedd reoli – Yn gyffredinol mae'r amgylchedd risg a rheoli'n gadarn. Mae rhai gwendidau y dylid eu trafod i ostwng y risg gweddilliol i gyflawni a/neu gwella effeithiolrwydd / effeithlonrwydd.

Gwendidau arwyddocaol yn yr amgylchedd reoli – Mae gwendidau arwyddocaol yn yr amgylchedd risg a rheoli sy'n cyflwyno risg gweddilliol uchel i gyflawni effeithiol ac effeithlon oni bai y gweithrediril'w gywiro..

Graham Russell
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
LBRO

Mehefin 27 2011

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau'r Swyddfa Gwell Rheleiddio Leol (LBRO) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth 31 2011 o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Clir Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad ar Lifau Arian, y Datganiad ar Newidiadau Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratöwyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a osodir oddi mewn iddynt. Hefyd rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel eu bod wedi'u harchwilio.

Cyfrifoldebau priodol LBRO, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Fel a eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad ar Gyfrifoldebau LBRO a'r Prif Weithredwr, mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am ymfodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw i archwilio, ardystio a datgan ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008. Gwneuthum fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas Archwiliadf y Datganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddweud amlwg ai wedi'i achosi gan dwyll neu gan wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad ynghylch: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau LBRO gan gael eu gweithredu'n gyson a chan cael eu datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a wnaed gan LBRO; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i adnabod anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau byddaf yn ystyried y goblygiadau am fy nhystysgrif.

Ar ben hynny, gofynnir imi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a ddatganir yn y datganiadau wedi'u gweithredu at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, gweithredwyd y gwariant a'r incwm, ar bob cyfrif pwysig, at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion LBRO ar Fawrth 31 2011 ac o'i gwariant clir am y flwyddyn a ddaeth i ben pryd hynny; a

- paratöwyd y datganiadau ariannol yn iawn yn unol â Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a gyhoeddir yn ôl y gofynion hynny.

Pwyslais ar fater – busnes gweithredol

Heb oleddfu ar fy marn, rwyf yn tynnu sylw at nodyn 1 yn y datganiadau ariannol ynghylch gweithredu'r sylfaen fusnes gweithredol yng ngolau'r cynnig Gweinidogol i ddiddymu'r LBRO. Mae hyn yn amodol ar ddeddfwriath ac felly mae ansicrwydd ynghylch gallu LBRO i barhau i weithredu ar ei ffurf gyfreithiol gyfredol.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- paratöwyd y rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddir o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008; a

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn Sylwadau'r Rheolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratöwyd y datganiadau ariannol amdani yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn datgan arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w ddatgan mewn cysylltiad â'r materion dilynol rwyf yn eu datgan ichi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio'n cytuno â'r cofnodion na'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd angen am fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad ar Reoli Mewnol yn adlewyrchu cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM..

Adroddiad

Ni does gennyf sylwadau l'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Mehefin 29 2011

Tabl 4: Datganiad ar wariant net cynhwysfawr

		Ebr. 1/10 i Fawrth 31/11 £	Ebr. 1/09 i Fawrth 31/11 £
Gwariant			
costau staff	3	(1,832,679)	(1,953,507)
dibrisio	8,9	(108,921)	(91,630)
gwariannau eraill	4	(1,998,630)	(2,358,604)
Cyfanswm gwariant		(3,940,230)	(4,403,741)
Incwm			
incwm arall	7	347,982	422,817
Cyfanswm incwm		347,982	422,817
Gwariant net		(3,592,248)	(3,980,924)
llog taladwy		(1,305)	(4,700)
Gwariant net wedi llog		(3,593,553)	(3,985,624)

Gwariannau cynhwysfawr eraill

	Nod.	Ebr. 1/10 i Fawrth 31/11 £	Ebr. 1/09 i Fawrth 31/10 £
enillion/colled net ar ailbrisio eiddo, peiriannau & offer		-	-
enillion/colled net ar ailbrisio eitemau anghyffyrddadwy		-	-
enillion/colled net ar ailbrisio asedau ariannol ar gael-i'w-gwerthu		-	-
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn		(3,593,553)	(3,985,624)

Dosbarthir holl weithgareddau'r sefydliad fel eu bod yn parhau..

Cynhwysir nodiadau ar dudalennau 45 i 57.

Tabl 5: Datganiad ar y sefyllfa ariannol

	Nod.	Mawrth 31/11 £	£	Mawrth 31.10 £
Asedau anghyfredol				
eiddo, peiriannau ac offer	8	146,430		154,444
asedau anhghyffyrddadwy	9	316,059		294,746
Cyfanswm asedau anghyfredol			462,489	449,190
Asedau anghyfredol				
eitemau derbyniadwy masnach ac eraill	12	109,872		211,029
arian parod ac eitemau cyfwerth	13	262,787		174,282
Cyfanswm asedau cyfredol			372,659	385,311
Cyfanswm asedau			835,148	834,501
Rhwymedigaethau cyfredol				
eitemau taladwy masnach ac eraill	14	(311,095)		(360,895)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			(311,095)	(360,895)
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol			524,053	473,606
Rhwymedigaethau anghyfredol				
darpariaethau	15	(25,000)		-
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol			(25,000)	-
Asedau llai rhwymedigaethau			**499,053**	473,606
Ecwiti trethdalwyr				
cronfa gyffredinol	22		499,053	473,606
			499,053	473,606

Cynhwysir nodiadau ar dudalennau 45 i 57.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd LBRO ar Fai 25 2011 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Graham Russell
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifydduer
LBRO

Mehefin 27 2011

Tabl 6: Datganiad ar lifau arian

	Nod.	Ebr 1/10 i Faw31/11 £	Ebr 1/09 i Faw 31/10 £
Llifau arian o weithgareddau gweithredu			
diffyg net wedi cost cyfalaf a llog		(3,593,553)	(3,985,624)
cynnydd/(gostyngiad) masnach/eitemau derbyniad.	12	101,157	(36,143)
gostyngiad mewn eitemau taladwy masnach	14	(49,800)	(516,299)
cynnydd mewn darpariaethau	15	25,000	-
dibrisio ac amorteiddio		108,921	91,630
costau cyllid anariannol		-	-
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(3,408,275)	(4,446,436)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
prynu eiddo, peiriannau ac offer	8	(47,220)	-
prynu asedau anghyffyrddadwy	9	(75,000)	(145,774)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(122,220)	(145,774)
Llifau arian o weithgareddau ariannu			
grantiau o'r brif adran	6	3,619,000	4,300,000
Ariannu net		3,619,000	4,300,000
Cynnydd mewn arian ac eitemau cyfwerth ar ddechrau'r cyfnod		**88,505**	(292,210)
Arian ac eitemau cyfwerth ar ddechrau'r cyfnod		**174,282**	466,492
Arian ac eitemau cyfwerth ar ddiwedd y cyfnod	13	**262,787**	174,282

Cynhwysir nodiadau ar dudalennau 45 i 57.

Tabl 7: Datganiad ar newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr

	Nod.	Cronfa gyffredinol £	Cyfanswm ecwiti trethdalwyr £
Gweddill ar Ebrill 1 2010		473,606	473,606
newidiadau yn y polisi cyfrifyddu	2	-	-
gweddill a ailddatganir ar Ebrill 1 2010		473,606	473,606
Diffyg am y flwyddyn		(3,593,553)	(3,593,553)
grant o'r brif adran		3,619,000	3,619,000
Gweddill ar Fawrth 31 2011		499,053	499,053

Cynhwysir nodiadau ar dudalennau 45 i 57.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y cyfnod Ebrill 1 2010 i Fawrth 31 2011

1. Datganiad ar bolisïau cyfrifyddu

A. Egwyddorion cyffredinol

Mae'r datganiadau ariannol yn crynhoi trafodion y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) am y cyfnod 12 mis a ddaeth i ben ar Fawrth 31 2011.

Dechreuodd LBRO fasnachu ar Fedi 3 2007 fel cwmni ym mherchnogaeth lwyr y Llywodraeth. Diddymodd y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau LBRO gan sefydlu LBRO fel NDPB ar Hydref 1 2008.

Paratöwyd y datganiadau ariannol yn unol â FreM 2010-11 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM (ar gael ar www.financial-reporting.gov.uk). Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FreM yn gweithredu Safonau Datgan Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel a addaswyd am gyd-destun y sector cyhoeddus. Ble mae'r FreM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu a farnwyd i fod y mwyaf priodol i amgylchiadau neilltuol LBRO at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau neilltuol a fabwysiadwyd gan LBRO isod. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn bwysig mewn cysylltiad â'r cyfrifon.

B. Sylfaen cyfrifyddu

Paratöwyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol.

C. Busnes gweithredol

Roedd LBRO yn destun adolygu gan y Llywodraeth yn ystod 2010-11, ag argymhelliad gweinidogol y dylid parhau â'r mwyafrif o swyddogaethau LBRO er y byddai'r corff cyhoeddus anadrannol a redwyd gan y Bwrdd ac a wyddys yn gyfredol fel LBRO yn cael ei ddiddymu a throsglwyddid ei asedau, ei ymrwymiadau a'i swyddogaethau i'r adran noddi, BIS.

Mae penderfyniad terfynol ar argymhelliad y Gweinidog yn destun y broses Seneddol o hyd. Fodd bynnag, gan ei fod yn debyg y trosglwyddir rhai neu bob un o swyddogaethau LBRO i BIS, paratöwyd y datganiadau ariannol hyn ar sylfaen busnes gweithredol.

Cadarnheir ariannu o BIS am 2011-12 fel £3.112 million

.

D. Grantiau'r Llywodraeth

Yn bennaf mae incwm yn cynnwys cymorth grant oddi wrth BIS. Credydir grantiau a ddefnyddir ar gyfer gwariant refeniw i'r datganiad ar wariant clir cynhwysfawr yn yr un cyfnod â'r gwariant maent yn perthyn iddo.

E. Eiddo, peiriannau ac offer

Cofnodir yr holl eiddo, peiriannau ac offer ar gost ar y cychwyn.

Priodolir eitemau sy'n costio llai na £2,500 i wariant ym mlwyddyn eu prynu. Fodd bynnag, ble prynir grŵp o eitemau homogenaidd â gwerthoedd unigol o lai na £2,500 ond â gwerth fel grŵp o fwy na £2,500, gellir eu cyfalafu ble yr ystyrir y byddai hyn yn dangos darlun gwir a theg.

Cyfalafir eiddo, peiriannau ac offer ar gost eu caffael, gan ychwanegu unrhyw gostau fel gosod a chomisiynu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'w hatgyweirio i gyflwr gweithio.

Sefydlwyd swyddfeydd, celfi ac offer technoleg cyfathrebu gwybodaeth parhaol yn Ionawr 2008 a chawsant eu cynnwys ar gost. Ymgymerir ag eu hailbrisio erbyn diwedd 2012-13, yn unol â *Safonau Arfarnu a Phrisio* Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

F. Asedau anghyffyrddadwy

Cofnodir pob ased anghyffyrddadwy ar gost.

Priodolir eitemau o offer sy'n costio llai na £2,500 i wariant ym mlwyddyn eu prynu. Fodd bynnag, ble prynir grŵp o eitemau homogenaidd â gwerthoedd unigol o lai na £2,500 ond â gwerth fel grŵp o fwy na £2,500, gellir eu cyfalafu ble yr ystyrir y byddai hyn yn dangos darlun gwir a theg.

G. Dibrisio ac amorteiddio

Darperir dibrisio ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer o'r mis yn dilyn dyddiad eu caffael.

Gwneir amorteiddio ar asedau diriaethol o'r mis yn dilyn dyddiad eu caffael.

Amcangyfrifir dibrisio ac amorteiddio er mwyn dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol amcangyfrifedig, ar sylfaen llinell-syth dros gyfnod bywyd economaidd disgwyliedig defnyddiol yr ased hwnnw fel a ddangosir yn Nhabl 8.

Dibrisiwyd gweliannau lesddaliadol yn wreiddiol dros 10 mlynedd ond carlamwyd dibrisio yn ystod 2010-11 i'r lleiaf o bum mlynedd neu at ddiwedd Ionawr 2013, y cymal terfynu yn y les.

Dibrisiwyd celfi a ffitiadau'n wreiddiol rhwng pum a10 mlynedd ond carlamwyd dibrisio yn ystod 2010-11 i'r lleiaf o bum mlynedd neu at ddiwedd Ionawr 2013, y cymal terfynu yn y les.

Dibrisiwyd offer TG fel cyfrifiaduron bwrdd gwaith a gliniadur yn wreiddiol dros dair blynedd. Defnyddid offer o Ionawr 2008 o hyd ar ddiwedd 2010-11 felly dibrisiwyd dibrisio ar Ebrill 1 2010 dros y cyfnod hyd at ddiwedd Ionawr 2013. Mae'r holl offer TG arall yn cael ei dileu erbyn diwedd Ionawr 2013.

Dibrisiwyd systemau TG yn wreiddiol dros bum mlynedd ond carlamwyd dibrisio yn ystod 2010-11 I'r lleiaf o bum mlynedd neu hyd at ddiwedd Ionawr 2013, cymal terfynu'r les.

Ystyrir bod dost dibrisiedig yn gyfwerth a gwerth teg ar gyfer pob dosbarth o ased ag eithrio eiddo lesddaliad.

Tabl 8: Amcangyfrif o ddibrisio ac amorteiddio	
Gwelliannau lesddaliad	Dros gyfnod i gymal terfynu mewn les 5 mlyn.
Celfi a ffitiadau	Dros gyfnod i gymal terfynu mewn les 5 mlyn.
Offer TG	3-5 blynedd
Systemau TG – cronfa ddata Awdurdod Sylfaenol	7 mlynedd
Systemau TG - eraill	Dros gyfnod i gymal terfynu mewn les 5 mlyn.

H. Ymchwil

Dilëir gwariant ar ymchwil yn y flwyddyn y'i tynnir.

I. Lesau cyllid

Mae asedau a ddelir o dan lesau cyllid, sy'n lesau ble mae risgau a gwobrwyon perchnogaeth yr asedau wedi pasio, ar y cyfan, i LBRO, yn cael eu cyfalafu yn y datganiad ar y sefyllfa ariannol ac fe'u dibrisir dros gyfnod eu bywydau defnyddiol. Cynhwysir elfennau cyfalaf ymrwymiadau'r dyfodol o dan y lesau fel dyledion ar y datganiad ar y sefyllfa ariannol. Priodolir elfen log yr ymrwymiad rhentu i'r datganiad ar wariant clir cynhwysfawr dros gyfnod y les ac mae'n cynrychioli cyfran gyson o weddill yr ad-daliadau cyfalaf sy'n aros.

J. Lesau gweithredu

Priodolir rhenti a delir o dan lesau gweithredu i'r datganiad ar wariant clir cynhwysfawr ar sylfaen llinell-syth dros gyfnod y les.

K. Pensiynau

Cwmpasir cyflogeion presennol a blaenorol gan ddarpariaethau cynlluniau pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a ddisgrifir yn nodyn 3. Nid ariannir elfennau buddion diffiniedig y cynlluniau ac maent yn anghyfrannol ag eithrio mewn cysylltiad â buddion dibynyddion. Mae LBRO yn cydnabod costau disgwyliedig yr elfennau hyn ar sylfaen systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaethau cyflogeion ynddo gan dalu i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a amcangyfrifir ar sylfaen gronnu. Mae'r ymrwymiad i dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb y PCSPS. Ynglŷn ag elfen gyfrannu ddiffiniedig y cynlluniau, mae LBRO'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

L. Treth ar werth

Nid yw LBRO yn gymwys i'w gofrestru at ddibenion TAW. Felly priodolir TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu fe'i cynhwysir yng nghost gyfalafedig asedau anghyfredol.

M. IFRS yn bodoli ond heb fod yn effeithiol eto

Gwneir datgeliad dim ond am yr IFRS sydd neu a fydd yn gymwys.

N. Cost cyfalaf

Mae FreM 2010-11 yn cael gwared ar gost priodoli cyfalaf o gyfrifon, a fydd yn lleihau'r cofnodion a ddatgelir yn y datganiad ar wariant clir cynhwysfawr a'r datganiad ar lifau arian ond ni fydd yn effeithio ar y diffyg am y cyfnod. Nid oes dim datgeliadau eraill sy'n gymwys na sy'n arwyddocaol i LBRO.

Nodiadau i'r datganiad ar wariant clir cynhwysfawr

2. Dadansoddiad o wariant clir gan segment

Nid yw gweithredoedd LBRO yn destun i segmentu gan ei fod yn gweithredu fel uned sengl, yn cyrraedd amcanion strategol a gyflawnir ar draws yr holl sefydliad.

3. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Dyma gostau uniongyrchol staff gweithredol a gyflogir gan LBRO yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys taliadau salari, yswiriant cenedlaethol, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a staff asiantaeth. Nid ydynt yn cynnwys costau recriwtio a theithio, a gynhwysir o dan gostau eraill.

Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad ariannir ond nid yw LBRO yn gallu adanabod ei ran o'r asedau a dyledion sylfaenol. Prisiodd Actiwari'r cynllun y cynllun ar Fawrth 31 2007. Gallwch ddod o hyd I fanylion yng nghyfrifon adnodd'r Swyddfa Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Am y cyfnod o Ebrill 1 2010, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £210,152 yn daladwy I'r PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 16.7 I 24.3 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandau salari. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfaniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. O 2011-12, adolygir y bandau salari ond bydd y cyfraddau'n aros yr un. Gosodir y cyfraddau cyfrannu i gwrdd â chost y buddion sy'n cronnu yn ystod 2010-11 i'w talu pan yw'r aelod yn ymddeol, nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol (dim).

Gall cyflogeion ddewis i agor cyfrif pensiwn partneriaeth, bensiwn rhanddeiliad â chyfraniad o'r cyflogwr. Ni thalwyd cyfraniadau'r cyflogwyr i gyflenwyr pensiwn rhanddeiliad penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn perthyn i oedran a maent yn amrywio o 3 i 12.5 y cant o dâl pensiynadwy. Hefyd mae cyflogwyr yn cyfateb â chyfraniadau cyflogeion hyd at 3 y cant o dâl pensiynadwy. Nid oedd dim cyfraniadau cyflogwr yn daladwy i'r PCSPS i gwmpasu cost darparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth ac ar ymddeoliad afiechyd y cyflogeion hyn.

Roedd cyfraniadau a oedd yn daladwy igyflwnwyr pensiwn partneriaeth ar y datganiad ar y sefyllfa ariannol yn ddim. Roedd cyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw'n ddim.

a. Costau staff

Tabl 9: Costau sy'n perthyn i staff

Ffigyrau mewn £au	Ebrill 1/10 i Fawrth 31/11					Ebrill 1/09 i Fawrth 31/10
	Aelodau'r Bwrdd	Staff â chontract parhaol neu gynod sefydlog	Secondeion	Staff eraill ar gontractau tymor byr neu dros dro	**Cyfanswm**	Cyfanswm
Cyflog a salari	134,063	1,064,032	242,942	11,078	1,452,115	1,579,947
Nawdd	12,323	86,271	21,883	-	120,477	126,559
Costau pensiwn eraill	-	210,152	49,935	-	260,087	247,001
total	**146,386**	**1,360,455**	**314,760**	**11,078**	**1,832,679**	1,953,507

b. Nifer o bersonau a gyflogr ar gyfartaledd

Tabl 10: Nifer y bobl a gyflogir ar gyfartaledd

	2010-11			2009-10		
	Cyfanswm	**Staff parhaol**	**Eraill**	Cyfanswm	Staff parhaol	Eraill
Prif Weirhredwr/Uwch dîm rheoli	4.0	4.0	0.0	5.0	5.0	0.0
Staff polisi a gweinyddu	21.3	21.1	0.2	22.9	20.8	2.1
Cyfanswm nifer ar gyfartaledd	**25.3**	25.1	0.2	27.9	25.8	2.1

4. Gwariant arall

Tabl 11: Gwariannau eraill

Ffigyrau mewn £au	**Ebrill 1/10 i Fawrth 31/11**	Ebrill 1/09 i Fawrth 31/10
Gwariant rhaglen uniongyrchol	1,370,152	1,573,275
Ffïoedd proffesiynol	180,569	228,452
Teithio a chynhaliaeth	117,295	152,807
Rhentau o dan lesoedd gweithredu	82,407	82,196
Costau llety eraill	87,548	73,843
Costau personél	53,547	60,432
Tâl archwilwyr allanol - archwiliad statudol	17,000	23,750
Tâl archwilwyr mewnol	11,725	12,999
Cyflenwadau a gwasanaethau eraill	78,387	150,850
Cyfanswm gwariannau eraill	**1,998,630**	2,358,604
Llog les gyllid	**1,305**	4,700
Eitemau anariannol:		
Dibrisio	55,234	52,983
Amorteiddio	53,687	38,647
Cyfanswm eitemau anariannol	**108,921**	91,630

5. Gwariant ar gyflawni rhaglen gan segment (amcan)

Tabl 12: Cyflawni rhaglen wrth y segment (Amcan)

Ffigyrau mewn £au	Ebr. 1/10 i Fawrth	Fawrth 31/11
Gwella gwasanaeth cymorth	**652,994**	**678,980**
Cyflawni canlyniadau/effeithiau'n effeithiol/yn gynaliadwy	44,036	71,942
Arweiniad, strategaethau a chydweithredu	165,340	401,166
Adnoddau, gweithgareddau a rheoli pobl	114,210	28,470
Ffocws ar ymgysylltu â chwsmeriaid	329,408	177,402
Cyflawni cysondeb yn uniongyrchol	**538,215**	**443,424**
Ymgysylltu â busnes	168,395	-
Awdurdod Sylfaenol	235,650	433,582
Bygythiadau cenedlaethol	134,170	9,842
Gwella'r system	**255,452**	**273,067**
Safon Fyd-eang	191,510	272,317
Cyngor a pholisi	63,942	750
Trefnu rhagorol	**87,253**	**298,631**
Strategaeth	9,842	11,515
Monitro a gwerthuso rhaglen	14,195	-
Cyhoeddiadau ac Ymgysylltu	63,216	287,116
Cyfanswm Costau Cyflawni'n cynnwys Asiantaeth/Secondeion	1,533,914	1,694,102
Direct staff costs	£837,500	£510,600
Total programme delivery	£2,371,400	£2,204,700

Pwrpas LBRO yw cyflawni rhaglenni (wedi'i gefnogi gan gostau gweinyddol gweithredu'r sefydliad) ar drywydd prif amcanion. Dangosir gwariant ar raglenni, wedi'i rannu gan yr amcanion hyn, ac yn cynnwys costau priodol asiantaeth / secondai, yn nhabl 12.

Mae'r gost a ddangosir uchod yn fwy na'r swm a ddangosir yn nodyn 5 o dan wariant arall gan werth y costau asiantaeth / secondai, a ddangosir o dan gostau staff yn y cyfrif gwariant clir.

Yn ychwanegol, cyflogir nifer o staff parhaol a rhai secondeion i gyflawni rhai o'r rhaglenni hyn yn uniongyrchol fel elfen arwyddocaol o'u rolau. Yr elfen o gostau staff y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i gyflawni rhaglenni dros y cyfnod hwn yw £837,500 (£510,600 yn 2009-10). Mae hyn yn hafal â chyfanswm gwariant uniongyrchol o £2,371,400, neu 68 y cant (£2,204,700, neu 53 y cant yn 2009-10) o'r cymorth grant a weithredwyd tuag at wariant refeniw clir (gweler nodyn 6).

6. Cymorth grant

Dangosir cyfanswm y cymorth noddwr allanol o BIS isod. Mae'r swm a ddangosir fel yn cael ei briodoli tuag at brynu asedau sefydlog yn cynnwys £25,000 o ychwanegiadau i welliannau lesddaliad a eneradwyd fel canlyniad i greu darpariaeth am ddadfeiliadau o dan IAS16.

Tabl 13: Cymorth grant

Ffigyrau mewn £au	**Ebr. 1/10 i Fawrth**	Ebr. 1/09 i Fawrth 31/11
Wedi'u derbyn yn y flwyddyn o BIS - dyraniad	3,619,000	4,300,000
	3,619,000	4,300,000
Llai: priodolir tuag at brynu asedau sefydlog/anghyffyrddadwy	(122,220)	(145,775)
	3,496,780	4,154,225

7. Incwm amrywiol

Tabl 14:Incwm amrywiol

(ffigyrau mewn £au	**Ebriil 1 10 i Fawrth**	Ebrill 1 09 i Fawrth 31
Ad-dalu costau		
Llywodraeth Cymru	200,000	300,000
BIS CCP	-	97,000
MOU porthladdoedd BIS	147,265	10,000
Asiantaeth Safonau Bwyd	-	5,000
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	-	5,000
SITPRO	-	2,800
Y Swyddfa Fesur Wladol	-	2,500
Amrywiol	717	517
	347,982	422,817

Mae LBRO wedi cyflawni prosiectau sy'n benodol i Gymru hyd at werth £200,000 yn erbyn cynllun busnes Llywodraeth Cymru.

Mae Cyfarwyddiaeth Bolisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth BIS (CCP) wedi dyrannu grant o £130,000 i LBRO er mwyn iddo beilota profi gwell ar gynhyrchion a gweithgareddau gwyliadwriaeth y farchnad mewn pyrth mynediad allweddol yn y DU. Hefyd dyrannwyd £17,265 ychwanegol i LBRO i'w alluogi i wneud asesiad strategol o'r problemau allweddol ynghylch mewnforio nwyddau defnyddwyr i adnoddau dyranedig ar sail risg.

Nodiadau i'r datganiad ar y sefyllfa ariannol

8. Eiddo, peiriannau ac offer

Tabl 15: Eiddo, peiriannau ac offer

Ffigyrau mewn £au	Gwelliannau lesddaliad	Offer TG	Celfi a ffitiadau	Cyfanswm
Gweddill ar Fawrth 31	**110,022**	**136,301**	**74,697**	**321,020**
Dibrisio				
Ar Ebrill 1 2010	15,232	77,948	26,176	**119,356**
wedi'u talu yn y cyfnod	18,355	20,307	16,572	**55,234**
gwarediadau	-	-	-	-
ailddosbarthiadau	-	-	-	-
ailbrisiadau	-	-	-	-
Dibrisio cronedig ar Fawrth 31 2011	**33,587**	**98,255**	**42,748**	**174,590**
Llyfrwerth net ar Fawrth 31 2011	**76,435**	**38,046**	**31,949**	**146,430**
Llyfrwerth net ar Fawrth 31 2010	55,069	50,854	48,521	154,444
Ariannu ased				
meddir	76,435	38,046	31,949	**146,430**
les gyllid	-	-	-	-
Llyfrwerth net ar Fawrth 31 2011	**76,435**	**38,046**	**31,949**	**146,430**

Mae ychwanegiadau at welliannau lesddaliad yn cynnwys £25,000 ar gyfer dadfeiliadau a gyfalafwyd o dan IAS16

9. Asedau anghyffwrddadwy

Tabl 16: Asedau anghyffyrddadwy

Ffigyrau mewn £au	Ebrill 1 2010 i Fawrth 31 2011				Fawrth 31/10
	System gyllid trwydded au meddalwedd	System reoli cysylltiadau cwsmaeriaid trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau meddalwedd Awdurdod Sylfaenol	**Cyfanswm**	Cyfanswm
Gweddill ar Fawrth 31 2011	**16,947**	**19,742**	**373,678**	**410,367**	335,367
Amorteiddio					
Ar Ebrill 1 2010	3,389	5,923	31,309	**40,621**	1,974
wedi'u nodi yn y cyfnod	4,519	4,606	44,562	**53,687**	38,647
gwarediadau	-	-	-	-	-
ailddosbarthiadau	-	-	-	-	-
ailbrisiadau	-	-	-	-	-
Amorteiddio cronnus ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu	**7,908**	**10,529**	**75,871**	**94,308**	40,621
Llyfrwerth net ar Fawrth 31 2010	**9,039**	**9,213**	**297,807**	**316,059**	294,746
Llyfrwerth net ar Fawrth 31 2010	13,558	13,819	267,369	294,746	187,619
Cyllid ased					
meddir	9,039	9,213	297,807	**316,059**	294,746
Llyfrwerth net ar Fawrth 31 2010	**9,039**	**9,213**	**297,807**	**316,059**	294,746

10. Amhariadau

Ni fu amhariadau i asedau.

11. Stocrestrau

Nid yw LBRO'n dal eitemau i'w ailwerthu na stociau o gyhoeddiadau.

12. Eitemau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

a) Dadansoddiad gan fath

Tabl 17: Eitemau derbynadwy masnach ac asedau cyfredol eraill

Ffigyrau mewn £au	Maw.31/11	Maw.31/10
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn		
eitemau derbynadwy masnach	-	75,000
eitemau derbynadwy eraill	1,096	5,540
blaendaliadau ac incwm cronnus	108,776	130,489
Cyfanswm symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn	**109,872**	211,029
Symiau sy'n dod yn ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn		
eitemau derbynadwy masnach	-	-
eitemau derbynadwy eraill	-	-
blaendaliadau ac incwm cronnus	-	-
Cyfanswm symiau sy'n dod yn ddyledus wedi mwy nag un flw	-	-
Cyfanswm dyledwyr ac asedau cyfredol eraill	**109,872**	211,029

b) Gweddillion rhynglywodraethol

Tabl 18: Gweddillion rhynglywodraethol

(Figures in £s)	Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn **Maw 31/11**	Symiau sy'n dod yn ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn **31 Mar 11**	Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn Maw 31/10	Symiau sy'n dod yn ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn 31 Mar 10
Gweddillion gyda:				
cyrff eraill llywodraeth ganolog	-	-	95,059	-
awdurdodau lleol	25,840	-	24,633	-
ymddiriedolaethau GIG	-	-	-	-
corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd ma	-	-	-	-
Isgyfanswm: gweddillion rhynglywodraeth	25,840	-	119,692	-
Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywod.	**84,032**	-	91,337	-
Cyfanswm dyledwyr ar Fawrth 31	109,872	-	211,029	-

13. Arian a phethau sy'n hafal

Tabl 19: Arian ac eitemau sy'n gyfwerth

Ffigyrau mewn £au	Maw 31/11	Maw 31/10
Gweddill ar ddechrau'r cyfnod	174,282	466,492
Newid net mewn arian & eitemau cyfwerth	88,505	########
Gweddill ar Fawrth 31	**262,787**	174,282
Daliwyd y gweddillion dilynol ar Fawrth 31:		
Gwasanaethau bancio'r Llywodraeth	262,787	174,282
Banciau masnacol ac arian mewn llaw	-	-
Gweddill ar Fawrth 31	262,787	174,282

14. Eitemau masnach taladwy a dyledion cyfredol eraill

a) Dadansoddiad gan fath

Tabl 20: Eitemau taladwy masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

Ffigyrau mewn £au	Ebr. 1/10 i Fawrth	Fawrth 31/11
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn		
eitemau taladwy masnach	155,277	121,683
croniadau ac incwm a ohiriwyd	155,818	203,941
rhan gyfredol lesoedd cyllid	-	35,271
Cyfanswm symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn	**311,095**	360,895
Symiau sy'n dod yn ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn		
eitemau taladwy eraill, croniadau ac incwm a ohiriwyd	-	-
lesoedd cyllid	-	-
Cyfanswm symiau sy'n dod yn ddyledus wedi mwy nag un fl	-	-
Cyfanswm eitemau taladwy masnach	**311,095**	360,895

b) Gweddillion rhynglywodraethol

Table 21: Intra-government balances

Ffigyrau mewn £au	Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn **31 Mar 11**	Symiau sy'n dod yn ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn **31 Mar 11**	Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn 31 Mar 10	Symiau sy'n dod yn ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn 31 Mar 10
gweddillion gyda				
cyrff eraill y llywodraeth ganolog	20,935	-	141,735	-
awdurdoau lleol	18,739	-	20,609	-
ymddiriedolaethau GIG	-	-	-	-
cyrff cyhoeddus a chronfeydd masnachu	-	-	-	-
isgyfanswm: gweddillion rhynglywodraeth	39,674	-	162,344	-
gweddillion gyda chyrff allanol i'r llyw.	**271,421**	-	198,551	-
cyfanswm credydwyr ar Fawrth 31	311,095	-	360,895	-

15. Darpariaethau am ddyledion a thaliadau

Tabl 22: Darpariaethau

Ffigyrau mewn £au	**Maw 31/11**	Maw 31/10
gweddill ar ddechrau'r cyfnod	-	-
wedi'u talu yn y cyfnod	(25,000)	-
gweddill ar Fawrth 31	(25,000)	-

Mae'r ddarpariaeth hon yn perthyn i ddadfeiliadau, h.y. y gwariant posibl a fyddai angen i adfer y swyddfeydd lesiedig cyfredol i'w cyflwr gwreiddiol ar y torbwynt nesaf yn y les, Ionawr 2013 yn gyfredol. Yn unol ag IAS16, cyfalafwyd y gwariant hwn o fewn ychwanegiadau lesddaliad.

16. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oes ymrwymiadfau cyfalaf ar Fawrth 31 2011.

17. Ymwymiadau o dan lesau

Lesau gweithredu

Rhoddir ymrwymiadau o dan lesau gweithredu i dalu rhentau yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod mae'r les yn dod i ben ynddo.

Tabl 23: Lesoedd gweithredu

Ffigyrau mewn £au	**1 Apr 10 to 31 Mar 11**	1 Apr 09 to 31 Mar 10
Mae goblygiadau o dan lesoedd gweithredu'n cynnwys:		
Adeiladau:		
sy'n dod i ben o fewn un flwyddyn	82,267	82,267
sy'n dod i ben wedi un flwyddyn heb fod yn fwy na 5 mlyned	65,128	147,396
yn dod i ben wedyn	-	-
	147,395	229,663
Eraill:		
sy'n dod i ben o fewn un flwyddyn	124,533	104,596
sy'n dod i ben wedi un flwyddyn ond heb fod yn fwy na 5	52,318	-
yn dod i ben wedyn	-	-
	176,851	104,596

Estynwyd y les am ddarparu gwasanaeth TCG rheoledig o dair blynedd i bum mlynedd yn Ionawr 2011, erbyn hyn yn dod i ben yn Ionawr 2013.

Lesau cyllid

Mae goblygiadau o dan lesau cyllid fel sy'n dilyn:

Tabl 24:

(Ffigyrau mewn £au)	Ebr.1/10 i Faw 31/11	Ebr 1/09 i Faw 31/10
Mae goblygiadau o dan lesoedd cyllid yn cynnwys:		
Eraill:		
rhentau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn	-	36,577
rhentau sy'n dod yn ddyledus wedi un flwyddyn ond o fewn	-	-
rhentau sy'n dod yn ddyledus wedyn	-	-
	-	36,577

Daeth y les gyllid I ben ym Mawrth 2011, â hawl I'r asedau'n pasio I LBRO.

18. Trafodion parti-berthynol

Mae'r sefydliad yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol, a noddir ac a feddir gan BIS, ran o'r Llywodraeth. Rheolir y berthynas drwy'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio (BRE).

Ystyrir y cyrff hyn fel parti perthynol y mae LBRO wedi cael trafodion pwysig amrywiol ganddynt yn ystod y cyfnod. Yn ystod y flwyddyn ariannol, derbyniodd LBRO cymorth grant o £3,619,000 oddi wrth ei barti perthynol rheoledig BIS.

Ar ben hynny, mae LBRO wedi cael nifer fach o drafodion gydag adrannau eraill y Llywodraeth a chyrff canolog eraill y Llywodraeth.

Mae un cyfarwyddwr anweithredol, Rob Leak, yn Brif Weithredwr Enfield, fwrdeistref Llundain. Talodd LBRO £7,812 i Fwrdeistref Llundain Enfield am wasanaethau Rob yn ystod y flwyddyn ariannol.

Nid oes un aelod o'r Bwrdd, reolwr allweddol na dim parti perthynol wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion pwysig ag LBRO yn ystod y cyfnod.

19. Digwyddiadau dilynol

Nid oes digwyddiadau dilynol adroddadwy. Awdurdodwyd y cyfrifon hyn i'w cyhoeddi ar Fehefin 29 2011, y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rholwr a'r Archwilydd Cyffredinol.neral.

20. Colledion a thaliadau arbennig

Nid oes taliadau arbennig adroddadwy am y cyfnod a ddaeth i ben ar Fawrth 31 2011.

21. Offer ariannol

Cwrddir ag adnoddau LBRO drwy gymorth grant oddi wrth yr adran noddi, BIS. Nid oes gan LBRO bwerau i fenthyca arian nag i fuddsoddi cronfeydd sy'n weddill. Heblaw am asedau a dyledion ariannol, a eneradir gan weithgareddau dydd-i-ddydd, nid yw LBRO'n dal dim offer ariannol.